YR YMOFYNYDD.

RHIF. 22.] MEHEFIN, 1849. [CYF. II.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD, ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."---GOL.

EGWYDDOR PABYDDIAETH, YN EI GWAHANOL YMDDANGOSIADAU,—DDIM OND ADFYWIAD O YSBRYB PAGANIAETH.

Os mynwn ddyweud y gwir, bob un wrth ei gymydog, rhaid i ni alw pethau wrth eu priodol enwau. Os gwneir hyn mewn ysbryd caruaidd, nid oes achos i neb dramgwyddo. Un peth yw dwyn ein tystiolaeth yn erbyn cyfeiliornad ac amryfusedd, o barch i'r gwirionedd ac yn ysbryd cariad; peth arall yw galw enwau câs ar ein gwrthwynebwyr, er mwyn eu drwg-liwio, neu i glwyfo eu teimladau a chrëu rhagfarn yn eu herbyn. Ni fyddid yn galw y fâth waith a hyny wrth ei enw priodol, pe na ddywedid mai gwaith drwg mileinig ydyw. Y mae "Pa beth sydd mewn enw?" wedi bod eisioes dan ystyriaeth ein darllenwyr. Nid ydym ar fedr dywedyd rhagor ar y pwnge hwnw yn bresennol. Ond y mae enwau i raddau pell yn llywodraethu'r byd: a sicr yw fod cam-gyflëu enwau wedi bod yn ran fawr o hudoliaeth yr amryfusedd yn mhob oes. Nid gwaith difudd yw ceisio adgyweirio iaith dynion yn yr ystyr yma: ac nid gwaith hawdd ydyw, a bod yn sicr. Pwy bynag sydd yn meddu ar yr onestrwydd a'r gwrolder i alw pethau wrth eu priodol enwau, ac sydd hefyd yn gwneuthur hyny yn y fath fodd ag i ennill gwrandawiad ac ystyriaeth bwyllog—efe a gyflawna wasanaeth da i'w oes a'i genedlaeth.

Er y bydd iddo wrth hyny grëu gwrthwynebiad a dwyn am ei ben gasineb dynion hunanol a rhagfarnllyd, a chael ei erlyd am ei lafur; etto, os gydâ dybenion da, ac mewn tymer frawdol y cais amlygu'r gwir, nid oes achos iddo ofni y canlyniadau. Y mae ei gyflwr yn gan mil mwy dedwydd, hyd yn oed yn y fuchedd bresennol, nâg eiddo y rhai sydd yn gwaeddi *hurâ* gyda'r mawrion, neu ynte sy'n gwenieithio i ragfarnau y lluaws, er mwyn ryw fantais dymhorol. Yn ei bryd, derbyn y naill fel y llall ei briod wobr. Y mae arwyddion gobeithiol fod dyddiau yr hudoliaeth a'r traws awdurdod ysbrydol a gwladwriaethol, wedi eu rhifo. Ac os nad ydym yn camsynied, daw egwyddorion pwysig a daionus ag sydd yn awr dan wawd ac erledigaeth, cyn pen hir amser i ennill ystyriaeth bwyllog y werin yn mhob gwlad—ac y deuant allan o'r ymchwiliad yn fuddugoliaethus—i fod bellach mewn parch a hoffder cyffredinol, tra y bydd twyll plant y fagddu wedi gorfod cilio o'r golwg, ac yn lle gormes o bob mâth, bydd cyfiawnder yn teyrnasu. Pwy a ŵyr nad oes rhai wedi eu geni a gânt weled rhan fawr o'r cyfnewidiad gogoneddus. Yn y cyfamser, gellid cyflëu at yr amgylchiad (ond gadael allan bersonoliaeth) yr ymddiddan a adroddir iddo gymeryd lle yn amser cythrwfl yn *Athen* gynt rhwng *Demades* a *Phocion*. Ebe Demades, "y mae yr Atheniaid wedi eu cynhyrfu i'th erbyn;

yn eu llid a'u ffyrnigrwydd hwy a'th laddant." "A thithau," atebai Phocion, "hwy a'th laddant dithau, pan y dychwelont i'w hiawn bwyll." Yn ddiau mai peth cyfnewidiol ydyw ffafr gwerin anwybodus: nid oes dim sefydlogrwydd oddieithr mewn gwybodaeth a chyfiawnder. Cofier hefyd mai pell oddiwrth y gwir Gristion yw, llettya ysbryd dialgar: ei daer ddymuniad ef dros ei wrthwynebwyr yw, iddynt gael eu dwyn i adnabod a chofleidio'r gwir.

Arweiniwyd ni i wneuthur y sylwadau uchod wrth ddarllen Traethawd bychan ar Hanesiaeth Proffes Bersonol, mewn Cyhoeddiad Crefyddol Ffrengig a ddanfonwyd i ni gan ryw un o Paris ychydig ddyddiau yn ôl.* Ymddengys fod yr Ysgrifenydd yn teimlo yn ddwys bwysigrwydd a rhwymedigaethau y broffes a wna efe a'i blaid: sef, Protestaniaeth. Byddai yn dda genym pe bai Protestaniaid proffesedig Cymru yn teimlo yr un modd. Er yn gwahaniaethu oddiwrtho mewn rhai pethau, cyttunwn yn llwyr âg ef yn yr hyn y mae ei sylwadau hanesyddol yn myned i brofi, hyny yw, "*Nad yw egwyddor Pabyddiaeth, yn ei gwahanol ymddangosiadau, ddim ond adfywiad o ysbryd Paganiaeth*: a bod ymddangosiadau o'r un egwyddor anianol a gwenwynllyd idd eu canfod mewn eglwysi a chynulleidfaoedd a'r na fynant ymostwng i'r Pab o Rufain; ond gosodant i fynu fath o Babau iddynt eu hunain, ac, er yn ddiarwybod, gweithredant ar yr un egwyddor; ac mai hyn sydd wedi gosod *stop* ar bob gwir ddiwygiaid mewn crefydd."

Hanes proffes bersonol a'i hymdrech yn erbyn proffes etifeddiaethol—dyna ydyw hanes yr Eglwys. Fel prawf ac esiampl o hyn, y mae yn ddigon ar hyn o bryd i gyfeirio at hanes y Pab a Phabyddiaeth—testun ag sydd eisioes mewn rhan wedi ei gynnyg i ystyriaeth ein darllenwyr. Os gwir yw fod Pabyddiaeth yn fath o ymgnawdoliaeth o'r egwyddor anianol a Phaganaidd, y mae mor wired â hyny fod Rhagluniaeth wedi ac yn ei dal allan fel rhybudd i oesoedd y byd. Na thramgwydded y darllenydd wrthym am ein bod yn gofyn y cwestiwn iddo:—*A fyni di fod yn Babydd?*

Y neb a chwilio yn ddiduedd i hanes y dirywiad, nis gall lai, debygwn, nâ chanfod nad oedd codiad Pabyddiaeth ddim arall ond sefydliad Paganiaeth yn mynwes yr Eglwys. Cyfeiliornadau Paganaidd; defodau Paganaidd a ymlusgent i mewn. Mwy na hyny etto, dyna yr *egwyddor* Baganaidd hefyd yn ymlusgo i mewn i blith Cristnogion; a chyn pen hir amser yn cael y llywodraeth.—Hòno yw yr egwyddor o ffydd wladol neu gynulleidfaol (la foi collective) mewn cyferbyniad i ffydd neu grediniaeth *bersonol.*

Hyn yma oedd prif nodweddiad (characteristic principle) Paganiaeth yn mhob oes a gwlad. Gellid dwyn esiamplau i brofi ein haeriad, pe bai amgylchiadau yn caniattâu. Rhaid i ni yn bresennol foddloni ar gymeryd tystiolaeth dau neu dri o'r dynion goreu a doethaf ymhlith y Paganiaid—tystion mor gymmwys a'r a ellid gael ar y pwngc. Y maent oll yn cadarnhâu sylwad a wnaeth Rousseau, sef, "I'r Iesu ddyfod i selyllu ar y ddaear deyrnas *ysbrydol*; yr hyn, *drwy ysgaru y system dduwinyddol oddiwrth y system ddinasyddol*, a barodd na fyddai y *stât* (l'Etat) hwyach *yn un.*"

Yr oedd Rousseau, fel eraill o'r un *stamp*, yn teimlo yn groes i'r chwyldröad hwn a wnaed trwy yr Efengyl.---Mynai efe fod undeb trwyadl rhwng crefydd a'r llywodraeth---cyd-ymffurfiad â llythyren y gyfraith---a chrefydd genedlaethol yn yr ystyr Baganaidd o'r gair. Ei system ef oedd yr hon y daeth yr Iesu i'w dinystrio, yr hon y darfu i Babyddiaeth ei hail-sefydlu. Y mae ei olygiadau adnabyddus ef ar y pwngc yn rhoddi grym i'r sylwad a wnai.

Do, fe ddarfu i'r deyrnas ysbrydol wneud ysgariaeth rhwng crefydd a'r

* Archives du Christianisme au Dix-neuvieme Siècle, Journal Religieux. 29 Avril, 1849. Paris, Rue Tronchet, 2.

wladwriaeth. Y mae yn ymwneud â phob dyn ar ei ben ei hun—appelia at yr ewyllys a'r gydwybod—gofyna ffydd ac argyhoeddiad personol, a phob dyn i farnu drosto ei hun. Hyn o fraint a dyledswydd ar bawb—ni adwaenid mo honi cyn amser Crist; neu os adwaenid yr egwyddor, yr oeddid yn ymwrthod â hi.

"Ni adwaenid mo'r egwyddor!" dywed rhyw un, "A hithau wedi cael yr hyglod *Socrates* yn ferthyr drosti."—Ond gwrandewch beth ddywed ei ddisgybl *Xenophon* oedd golygiadau *Socrates* ar y pen hwn. "Yn mha fodd y llefarai efe am y duwiau? Yr un modd ag yr atebai y Ddewines Pythia i'r sawl a ddaethent i Delphos i ymofyn â hi, pa fodd y dylid gwasanaethu y duwiau: *cydymffurfiwch yn hyn â chyfreithiau eich gwlad.* Dywedai *Socrates* am y sawl oeddent mor gydwybod-dyner â cheisio ryw berffeithrwydd o uwch, mai dynion coel-grefyddol a gwageddus oeddent."

Seneca a ysgrifenai gyda mwy o ryddid ar byngciau y grefydd Baganaidd: byddai efe yn gwrthwynebu coel-grefyddau yr oes. Er hyny, dyma ei iaith ef: "Yn ein gwaith yn addoli y duwiau hyn oll, cofiwn fod yr addoliad a dalwn iddynt yn perthyn i'r arferiad yn hytrach nag i'r peth ei hun. Y doeth a geidw hyn oll fel wedi ei osod gan y gyfraith, ac nid fel yn foddhâol i'r duwiau."

Yr oedd *Plutarch* gydâ'r dysgedicaf a'r mwyaf deallus o'r Platoniaid. Dygai resymau da i brofi undod Duw (Zeus); yna ychwanegai: "Dylid gadael pob dyn i'r grefydd y dygwyd ef i fynu ynddi; ac i'r addoliad a orchymyner gan gyfreithiau y wlad lle y ganed ef." Yn siarad am y "gwr doeth," dywed am dano: "Rhag ofn y lluaws, y gwna weddi ac y tâl addoliad, a phan yn aberthu, nid yw yr offeiriad yr hwn sydd yn offrymu yr aberth ddim yn ei olwg ond megis cogydd."

Dyma, mae'n wir, ryddid i ddyn farnu drosto ei hun i'r eithaf; ond ar yr un pryd—am ryddid neu rwymedigaeth i broffesu a chrefydda, bob dyn drosto ei hun—ni chaniatteid y fath beth gan un o enwogion y byd Paganaidd.

Cawn fod hyd yn oed Philo yn siarad yn ddigofus a diystyrllyd am yr Alexandriaid hyny ag oeddent o gydwybod yn ymwrthod âg arferion coel-grefyddol y wladwriaeth. "*Dirmygant, ysywaeth, ffydd y lluaws!* Ni fynant chwilio ond am wirionedd yn ei burdeb, fel y mae ynddo ei hun!"

Gallwn yn awr, yr y'm yn tybied, ei gymeryd fel gwirionedd profedig, "Fod proffes o grediniaeth grefyddol ar sail ymchwiliad ac argyhoeddiad personol, yn egwyddor ag sydd mewn cyferbyniad a gwrthwynebiad llwyr i'r *egwyddor Baganaidd* o gyd-ymffurfio heb ymchwiliad."

Awn rhagom bellach at y ffaith hanesyddol o barthed i'r dirywiad oddiwrth burdeb a symlrwydd Crefydd Iesu Grist. Gallesid meddwl mai peth anhawdd os nad amhosibl fyddai camddeall a gŵyrdroi dysgeidiaeth mor eglur ac mor bendant a'r eiddo Crist, mewn perthynas i'r gwir addoliad, a natur yr iechydwriaeth sydd drwy'r Efengyl. Yr oedd yr hyn a ddywedodd wrth y wraig o Samaria, debyg'sid, yn ddigon o amlygiad mai nid goruchwiliaeth lëawl neu genedlaethol, ond un ysbrydol a chyffredinol oedd efe ar sefydlu ar y ddaear: mai nid drwy unrhyw ddefodau neu gyflawniadau allanol mae gwasanaethu Duw wrth ei fodd; ond drwy syniadau teilwng am dano, dymuniadau a thueddiadau dihalog a chariadlawn, ac ymostyngiad y galon i gadw ei ddeddfau nefol. "Yr Iesu a ddywedodd wrthi hi, O wraig, crêd fi, y mae'r awr yn dyfod, pan nad addoloch y Tâd, nac yn y myn ydd hwn (Gerizim) nac yn Jerusalem. Ond dyfod y mae'r awr ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd; canys y cyfryw y mae'r Tâd yn eu ceisio i'w addoli ef. Ysbryd yw Duw &c." Y mae ei dystiolaeth yr un mor bendant ynghylch natur yr iechydwriaeth. Ni wna "ei alw ef yn Arglwydd" nac unrhyw ddefodau na chyflawniadau yn ei

enw, ddim mo'r tro, heb "wneuthur ewyllys ein Tad Nefol." Mai i "ryddhâu dynion o gaethiwed pechod" y daeth Crist—"i'w prynu oddiwrth bob anwiredd,—a'u gwneud yn awyddus i weithredoedd da;" ac mai trwy "y gwirionedd," yn ei ddylanwadau bywiog ar feddwl a chalon y credadyn y mae y waredigaeth yn cymeryd lle yn effeithiol. Mai hyn oedd dysgeidiaeth Crist a ymddengys i ni mor amlwg a'r haul canol dydd. I effeithio *ar ddyn* ac *nid ar Dduw* y rhoddwyd yr iechydwriaeth. Yn ei dadguddiadau pwysfawr, yn ei gofynion, yn ei bygythiadau ac yn ei haddewidion, y mae yr Efengyl yn anerch nid yn unig pob dyn fel ei gilydd, ond pob dyn yn union-gyrchol hefyd, ac ar ei ben ei hun. "A rhaid i bob dyn drosto ei hun, roddi cyfrif i Dduw."

Am hyny, ddarllenydd hynaws, os pwyso yr wyt ar grefydd etifeddiaethol, crefydd y lluaws a'r awdurdodau—os ar ffydd cynulleidfâol neu wladwriaethol, heb chwilio a barnu drosot dy hun; gwybydd, mai nid hyn yna yw crefydd y Testament Newydd. Os dyna'r tir yr wyt am sefyll arno,---os dyna dy egwyddor grefyddol; yn mha beth yr wyt ti yn well nâ'r Pabydd a'r Pagan? Neu feallai dy fod am gael Crist yn waredwr i't, heb i ti fyned i "ddysgu ganddo ef, a chymeryd ei iau ef arnat." Chwilia y Testament Newydd: cai weled yno nad yw Crist yn cynnyg y fath dwyll ag iechydwriaeth a fyddo tu allan i ddyn. Ond y mae'r iechydwriaeth y mae efe yn ei chynnyg, yn cyrhaeddyd hyd at y meddwl a'r serchiadau a'r ymarweddiad. Mewn gair, nid yw ddim mwy na llai nâ dwyn ei ganlynwyr i fod yn debyg iddo ef ei hun. Gan hyny y mae pwyso ar "gyfiawnder cyfrifol" a haeddiant un arall, yr un mor ddieithr i'r egwyddor efengylaidd ag ydyw i bwyso ar gyflawniadau cyfryngwriaethol offeiriaid cyssegredig. "Teyrnas nefoedd, o'ch mewn chwi" y bydd. Dichon bod llawer un yn cyfranu yn helaeth tuag at anfon yr efengyl i Baganiaid, ac yntau ei hun yn amddifad o'i thrysor penaf!

Awn yn awr at y ffaith hanesyddol. Gan adael heibio yr amgylchiadau arweiniadol i'r dirywiad mawr, a'i raddol gynnyddiad o oes i oes, cymerwn Babyddiaeth wedi ei chwblhâu, yn ôl yr esboniad a roddir o honi gan Gynghorfa *Trent.* "Pwy bynag sydd yn gwadu fod y Sacramentau yn y gweinyddiad o honynt yn rhoddi grâs o honynt eu hunain, *ex opere operato,* bydded anathema!" Dyma benderfyniad Cynghorfa Trent ar y pwngc. Dyma i ni egwyddor Pabyddiaeth.

Yr "*opus operatum,*" yw "y gwaith a wneir" gan yr Offeiriaid cyssegredig yn ngweinyddiad y Sacramentau. Dyma, ynte, mewn gweithrediad eu trefn o achub dyn. Ni chaniatteir i ni fanylu llawer ar y pen. Ond barnwn y byddai yn fuddiol i'n darllenwyr i gymeryd golwg deg a chyflawn ar Babyddiaeth yn ei hegwyddor a'i gweithrediad, fel y gallont farnu yn well ynghylch ymddangosiadau o'r un egwyddor niweidiol mewn eglwysi a chynulleidfaoedd sy'n nês attynt nâ Rhufain, ac feallai, yn eu calonau eu hunain. Pell oddiwrthym ni fyddo condemnio arferion a daliadau y Pabyddion yn un crûglwyth. Ond *egwyddor* Pabyddiaeth sydd yn awr dan sylw, yn ei pherthynas a'r ysbryd Paganaidd, a'i gwrthwynebiad yn benaf i grediniaeth a chrefydd bersonol. Ar "y gwaith a wneir," yr *opus operatum* ---ar hyny mae'r cwestiwn yn ymddibynu.

Y Sacramentau, yn y gweinyddiad o honynt gan Offeiriaid yr Eglwys yn eu hamrywiol raddau, o'r Pab i lawr i'r swyddogion iselaf---y rhai'n yw y *machinery* meddant sy'n effeithio er achub aelodau yr Eglwys. Ni waeth beth fyddo duwioldeb neu annuwioldeb y sawl a'u gweinyddant; ond iddynt fod wedi eu cyssegru i'r swydd ac yn ei llenwi yn ôl y rhëolau awdurdodedig. (Nid pell Eglwys Loegr oddiwrth yr olwg hyn. Gwêl Erthygl 26. "Nad yw anheilyngdod y Gweinidogion yn rhwystro gweithrediad y Sacramentau.")

Cedwir maes o'r golwg hefyd "bar-

rottöad y galon &c. yn y sawl eu gweinyddir iddynt: y cwbl sydd eisiau yw, iddynt roddi eu hunain yn hollol i ofal ysbrydol yr Offeiriadaeth, a dyweud, a gwneud yn ôl eu cyfarwyddid—yna byddant yn ddiogel fel aelodau o gorff yr Eglwys, trwy effeithioldeb a Sacramentau.

Cael adenedigaeth trwy fedydd, cyffesu a chyflawni penyd yn rëolaidd, cyfranogi o'r offeren a'r eneiniad olaf, neu os oes Sacramentau eraill a gredir "eu bod yn rhoddi grâs o honynt eu hunain"—cyd-ymffurfio heb ymchwiliad—dyma egwyddor Pabyddiaeth. Onid amlwg ei pherthynas â'r egwyddor Baganaidd? Peth allanol, defodol, etifeddiaethol ydyw, fel honno; peth a ymddibyna ar gyfryngiaeth Offeiriaid a Sacramentau. Ble mae'r angenrheidrwydd o goleddu syniadau teilwng, a chwrteithio anian a buchedd dduwiol? 'Ble mae'r gynulleidfa o wir gredinwyr, y dywed y Testament Newydd am danynt eu bod wedi eu gwneuthur gan Grist oll "yn frenhinoedd ac yn Offeiriaid i Dduw a'i Dad ef?" Ac am ffydd bersonol, nid oes ddim lle iddi yma i weithredu; na'i heisiau chwaith, pan y mae "y ffydd gatholig" yn barod ond ei derbyn. Byddai ymchwiliad i wirionedd honno yn beth rhyfygus a pheryglus; gallai arwain i heresi ddamniol.

Dyma egwyddor Pabyddiaeth, onite? Ond nid Pabyddion yn unig sy'n agored i'r cyhuddiad. Y mae llawer ag sy'n barod i waeddi "wfft i'r hên fwystfil, Pabyddiaeth!" pe baent ond edrych eu hwyneb-pryd mewn drych cywir, hwy ganfyddent er eu syndod a'u dychryn, nôd y bwystfil yn eu talcènau. Pwy bynag sydd am ddàl i fynu grefydd y traddodiadau a'r awdurdod gwladol; neu unrhyw awdurdod eglwysig neu gynulleidfàol er caethiwo eneidiau credinwyr; pwy bynag sydd yn erbyn rhydd ymofyniad mewn pethau crefyddol, a phroffes ar ymchwiliad; pwy bynag sydd dros arfer trais o un mâth mewn crefydd, gan nad pa enw gymero arno, Pabydd yw efe mewn egwyddor. Ni chaniattâ amgylchiadau i ni fanylu. Gadewn i'r darllenydd deallus gyflëu y sylwadau at amgylchiadau adnabyddus iddo ac i farnu drosto ei hun, yn hyn fel mewn pob peth arall a gynnygiwn i'w ystyriaeth. Nis gall lai, ond odid, wrth gyflëu yr egwyddor nâ ffurfio ei farn neilldduol ar gredöau ac arferiadau gwahanol eglwysi a chynulleidfäoedd Cristnogol; ond nac anghofied hefyd i holi yn brysur ef ei hun, "Ai Pabydd *wyf fi* mewn egwyddor?"

Y mae dadl boeth wedi bod er ys rhai blynyddau bellach, ac yn debyg o bara dros ryw amser etto, rhwng dwy blaid yn yr Eglwys sefydledig, ynghylch yr hyn a elwir *Puseyaeth;* neu y graddau o berthynas sydd rhwng Eglwysi Lloegr a Rhufain.

Barna llawer mai nid anhawdd rhagweled y bydd i *rwygiad* gymeryd lle cyn pen hir amser yn mynwes yr Eglwys; ond y fath rwygiad ag nas gellir rhagweled ei ganlyniadau. Dychwelwn at y testun mewn rhifyn dyfodol. Duw wnêl fod amgylchiadau yn cyd-weithio er agor llygaid y bobl, a'u dwyn i gofleidio y gwirionedd a'i ddàl yn y cariad o hono. I.

GWIRIONEDD CRISTNOGRWYDD.

YR ADGYFODIAD—GWRTH-DDADLEUON.

Y mae gwrthddadl arall yn cael ei gyfodi gan Woolston. Dywed fod Crist wedi cyfodi yn gynt na'r amser, ac felly fod y cyttundeb rhwng yr archoffeiriaid a'r Apostolion ynghylch selio'r bedd wedi ei dorri, ac yn ganlynol mai ei ddisgyblion ddarfu ddwyn corph Crist ymaith, fel y tystiodd y milwyr wrth yr Archoffeiriaid. Ei ymresymiad sydd debyg i hyn. Cafodd yr Iesu ei osod yn y bedd, a maen ei ddodi wrth y drws, ac i wneuthur y peth yn eithaf diogel,

cafodd y maen ei selio fel na fuasai lle i dwyll; ac yr oedd yr Apostolion wedi cyttuno y cai'r sêl fod yno hyd y trydydd dydd, pryd y byddai i'r Archoffeiriaid a'r bobl ddyfod heibio i weled p'un ai gwir ai peidio a ddywedodd yr Iesu, sef gwnai gyfodi ar yr amser hwnnw. Ond cyn i'r amser appwyntiedig ddyfod i ben, i'r Apostolion ddyfod o hyd nos a dwyn ei gorph ef ymaith. Arwydd bendant o dwyll!!

I hyn yr wyf yn atteb yn ddiofn cael fy ngwrthwynebu, nad oedd un cyttundeb o'r fath erioed wedi bod rhwng yr Apostolion a'r archoffeiriaid ar y matter, ond yn hollol i'r gwrthwyneb y darllenwn; iddynt oll i ffoi, fel yr oedd yn natturiol iddynt; a pha le bynnag yr ymgyfarfyddent cymmerent ofal i gau'r drysau *rhag ofn yr Iuddewon.* A ydyw yn debygol i ddynion yn yr amgylchiadau hyn ffurfio cyngrair a'r rhai oeddent yn ofni, er *mwyn gwneuthur corph eu Harglwydd yn ddiogel?* Y mae'r peth yn wrthun! Nis gallasai fod; y mae'n amhosibl! Y mae Mr. Woolston, druan, yn anfoddloni yn fawr na fuasai corph yr Iesu yn cael ei adael yn y bedd hyd y gwelai yr archoffeiriaid fod yn dda. Ond wrth bwy y mae'n anfoddloni? Ar bwy y mae yn taflu'r bai? Ar Dduw, yn sicr; oblegid Duw a'i cyfododd ef o feirw: ac nid oedd un cyttundeb yn sicr rhwng *Duw* a'r Archoffeiriaid; ac felly nid oes un cyttundeb wedi ei dorri, am na fu'run erioed mewn bodoliaeth. Y mae'n wir i'w elynion ddodi corph yr Iesu yn y bedd, gan feddwl ei gadw yn ddiogel; ond nid eu heiddo hwynt oedd y trysor; eiddo un arall, eiddo Duw ydoedd; a gallasai Duw ofyn ei drysor yn ol pryd y gwelai ef yn dda, ac nid yr amser y mynnai yr Archoffeiriaid. Ac felly y gwnaeth.

Byddai hyn yn ddigon; ond y mae gennyf ragor i'w ddywedyd ar hyn. Y mae y gwrthddadl hwn etto yn troi yn erbyn y rhai a'u gwnant. Dywedir i'r Iesu gyfodi *cyn* yr amser appwyntiedig, O'r gorëu. Ni a ganiattawn hyn, er mwyn chwareu teg iddynt, ond mewn gwirionedd, chwareu teg i ni ydyw. Wele cafodd Crist ei gyfodi *cyn yr amser*; yna yr oedd y *gwilwyr*, a gawsant eu gosod i wilied y bedd, yn sicr o fod yno; oblegid yr oeddent i wilied hyd yr amser appwyntiedig, bid sicr. Gwyddent hwy, ynte, p'un a ddarfu i'r Iesu gyfodi ai peidio. Nid oedd bossibl i *cheat* gael ei gyflawni heb yn wybod iddynt hwy, gan eu bod yn bresenol. Ond beth pe buasai yr Iesu yn cyfodi ddiwrnod ar *ol* yr amser appwyntiedig, wedi i'r milwyr ymadael; yna buasai lle i ddrwg-dybio twyll; ond gan mai cyn yr amser y dywedir i hyn gymeryd lle, nid oedd modd i dwyll fod. Y fath *shift* wael y mae angrhedinwyr yn wneuthur pan elo' i'n galed!! Dywed Mr. Woolston hefyd ei fod ef yn credu stori'r milwyr, neu'n hytrach ran o honi, ddylaswn ddywedyd, sef eu haeriad, ddarfod i'w ddysgyblion ddyfod o hyd nos, a'i ddwyn ef ymaith, tra yr oeddent hwy yn cysgu. Er fod celwydd yn argraphedig ar wyneb y stori fongleraidd hon, er hynny y mae'n ddigon da i ddal anffyddiaeth i fynu. Er fod nôd twyll mor amlwg a'r dydd ar y stori hon, gan ei bod yn amhosibl i'r milwyr, a hwythau yn cysgu, wybod p'un ai ei ddysgyblion ddarfu ddwyn corph yr Iesu ymaith ai peidio; etto er cysgu a chwbl, gwirionedd y maent yn ddywedyd medd anffyddiaeth. Ymhellach, ble y cafodd anffyddwyr allan fod y milwyr yn dywedyd mai felly y bu? Nid oes ond un atteb i'r gofyniad; sef, mai yn hanes yr efangylwyr y cawsant hyn. Ond y mae'r hanes hwn yn dywedyd rhagor na hyn; yn dywedyd yn bendant i'r milwyr gael arian, a derbyn *bribe*, am daenu'r chwedl hon; felly os derbyniant ran o'r hanes, derbynient y cwbl a gwnaent y goreu o hono wedi'n; nis gall wneuthur dim drwg i Grist'nogrwydd. Y maent yn derbyn tystiolaeth dyn yn cysgu, dynion wedi eu *breibio*, dynion yn dywedyd celwydd am arian, tra yn gwadu tystiolaeth sobr yr haneswyr efengylaidd, oherwydd rhai gwallau bychain y dychmygant eu bod wedi eu canfod, ac o'r

rhai y gwnant fynyddau mawrion. Credat Judæus!!

5. Dywed angrhedinwyr hefyd, pe buasai esgyrn yr Iesu yn cael eu torri ar y groes, y buasai ei ymddangosiad i'w ddysgyblion yn fwy gwyrthiol, gan nad allasai rodio oddiamgylch a'i esgyrn yn friw.

Os na thorrwyd ei esgyrn ef, fe yrrwyd hoelion trwy ei draed a'i ddwylaw, yr hyn fuasai yn ddigon i'w analluogi ef, a phob un arall yn yr un amgylchiad, i gerdded oddiamgylch yn glau iawn. Rhagor na hyn etto; fe wanwyd ei ystlys ef a'r wayw-ffon; a pheth ddaeth allan? *Dwfr* a gwaed, medd yr hanes. Gwyddom o ble daeth y gwaed; gallasai hwn ddyfod dim ond rhwygo'r cnawd yn unig. Ond beth am y dwfr? O ble y daeth hwn? Dywed physygwyr nad oedd ond un man y gallasai dwfr ddyfod o hono, sef trwy dorri'r *pericardium* neu wisg y galon; a gwyddys yn ddigon da, wedi y torrer hon, na all neb fyw nemawr a funudau wedi'n. Wel, dyma dorri mwy na phe buasai holl esgyrn yr Iesu wedi eu briwio yn siwrwd mân. Fe gafodd ei ladd mewn gwirionedd, ac etto fe aeth oddiamgylch ac a ymddangosodd i'w ddysgyblion ar amrywiol achlysuron. Sylwer hefyd, nad yw'r hanesydd sydd yn dywedyd am y dwfr a ddaeth allan o ystlys yr Iesu ddim yn ei ddwyn fel prawf o farwolaeth y Messia; na, beth wyddai ef fod gwaith dwfr yn dyfod allan o fonwes un yn brawf o farwolaeth! Physygwyr diweddarach na'i oes ef gawsant allan y wybodaeth hon. Nid yw ef ddim ond dywedyd fel y bu; er fod yr hyn a ddywedodd wedi troi allan yn brawf cadarnach o farwolaeth yr Iesu na phe buasai ei holl esgyrn yn cael eu briwio.

6. Dywed Mr. Paine am Paul, ei fod yn ymresymu yn ddrwg, pan yn dywedyd, "O Ynfyd, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheir oni bydd efe marw." Iaith anweddaidd Paine yw "O ynfyd, Paul, y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheir efe, os bydd ef marw."

Mewn atteb i hyn digon yw dywedyd, nad yw prawf Paine ei hun ddim un gradd yn well oddiwrth gyfnewidiadau iar-fach yr haf neu bile-pala. Nid yw Paul yn dwyn marwolaeth yr gronyn gwenith fel *prawf* o'r adgyfodiad; eithr yn unig i egluro ei bwngc: ei unig brawf ef, fel y tystia ef ei hun, ydyw adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw. Ond a gadael fod Paul yn *ymresymu* yn ddrwg ar yr adgyfodiad; Beth wedi'n? A ydyw yn canlyn na all ef ddim bod yn *dyst* addas o'r hyn oedd ef wedi *weled a chlywed?* Os na all, pwy mwy all *fod* yn dyst? Ni all y Protestant ddim; oherwydd dywed y Pabyddion ei fod yn ymresymu'n ddrwg ar grefydd. Ni all y Pabydd ddim; oherwydd dywed y Protestant ei fod yn ymresymu yn ddrwg ar grefydd. Ni all y credinwyr ddim; oherwydd dywed anffyddwyr eu bod yn ymresymu yn ddrwg ar grefydd. Ni all anffyddwyr ddim; oherwydd dywed creidinwyr eu bod yn ymresymu'n ddrwg yn *erbyn* crefydd. Felly nid oes un tyst i fod na thros nac yn erbyn dim byth mwy! Hyn a ddywedais gan gymeryd yn ganiattaol fod Paul yn ymresymu'n ddrwg, fel y tybia Paine; eithr hyn nis gallaf ganiattau; oblegid ymddengys i mi ei fod yn ymresymu mor dda ag a allasai yn yr amgylchiadau. Ymresymu y mae ef oddiar yr hyn a gyfaddefid gan bawb yn ei amser ef; a chaniatteir fod y dull hwn o ymresymu yn dda, er y gall na fydd y sail yn dda bob amser fel yn y *case* hwn.—Yr oedd Paine ei hun yn credu fod byd ar ol hwn; ond y mae ei feddyliau mor isel am ei gyd-ddynion, neu am ran fawr o honynt, fel nas gallaf lai na'u gosod ger bron darllenwyr yr *Ymofynydd*, fel y gwelont y gwahaniaeth sydd rhwng meddyliau Iesu a'i eiddo ef. "Y mae rhai yn rhagorol dda; eraill yn ddrwg iawn. Y mae math arall o ddynion na ellir eu rhesu gyda'r naill na'r llall. Nid ydynt yn perthyn i'r defaid na'r geifr; a thrachefn y mae math arall o honynt mor ddibwys mewn cymmeriad ac ymddygiad, fel nad ydynt yn werth y drafferth o'u damnio na'u hachub na'u

cyfodi oddiwrth y meirw. Fy nhyb fy hun ydyw y bydd y cyfryw a dreuliasant eu bywydau mewn gwneuthur daioni, ac ymdrechu gwneud eu cyd-farwolion yn ddedwydd, oblegid dyma'r unig ffordd y gallwn wasanaethu Duw, *y bydd y cyfryw yn ddedwydd yr ochr draw;* ac y caiff y rhai drygionus iawn beth cosp. Ond y mae'r cyfryw nad ydynt na drwg na da yn rhy ddibwys i wneuthur sylw o honynt: gadewir hwynt yn hollol. Dyma yw fy nhyb." Ie, ie, meddaf finnau, a thyb wael iawn am y creadur a'r Creawdwr mawr hefyd, nad oes dim cymaint ag un o wallt ein pen yn ddibwys yn yn ei olwg.

7. Yn olaf, dywedir fod Duw yn anghyfnewidiol, ac wedi rhoddi rheolau anghyfnewidiol i nattur, ac nad yw yn gysson â'i ddoethineb i dorri y rheolau yma: ac mai un o'r rheolau yma yw, fod dynion yn marw, ac nad oes un o honynt yn dychwelyd yn ol yma drachefn: fod hon yn rheol gyffredinol.

Byddai yn ddigon dywedyd mewn atteb i hyn, nad addas i ddyn meidrol, pryfyn y llwch, creadur munud, i ddywedyd beth sydd gymmwys neu anghymmwys i awdwr bywyd i wneuthur; ac fod ei ddoethineb, ei gariad a'i dadoldeb yn rhoddi lle cryf i ni gredu y gwna ef dorri y rheol gyffredinol hon, a dwyn ei blant o garchar tywyll angau. Ond y mae rhagor etto i'w ddywedyd ar hyn; sef y gwnaiff achub ei blant; oherwydd y mae ef *yn* torri rheolau cyffredinol nattur *yn awr,* er mwyn *cadw* bywyd, a hynny am ychydig bach o flynyddau ar yr hwyaf. Er prawf, dygaf ymlaen ddwy neu dair o engrheifftiau, a ellir eu gweled yn fwy helaeth yn yr awdwyr canlynol: *Donovan's Chemistry, article air; Mrs. Marcet's Conversations on Chemistry, pp.* 239 to 241. Yr wyf yn meddwl fod pob *Chemist* diweddar o'r un farn a hwynt. Yn awr at yr engreifftiau.

Un Rheol gyffredinol trwy holl nattur yw hon, sef fod y pethau trymaf bob amser yn syrthio i'r gwaelod. Enw'r rheol hon yw dysgyrchiad, *gravitation.* Taflwch garreg i'r dwfr, hi aiff i'r gwaelod, a felly pob peth arall hefyd o drymach na'r dwfr, boed y peth y fo. Ond y mae un eithriad, (*exception,*) hynod oddiwrth y rheol hon, yn yr *awyr.* Y mae'r awyr yn cael ei gwneuthur i fynu, yn bennaf, o ddau dawch, a elwir *oxygen* a *nitrogen gas,* neu *azote;* hynny yw, y tawch sur a'r tawch difywyd. Y mae'r awyr yn cael ei gwneuthur i fynu o un rhan o *oxygen* a phedair o *azote.* Yn awr, pe buasai y ddau dawch hyn yr un bwysau, gallasent fod gyda'u gilydd heb dorri un rheol; ond nid felly y mae, eithr y mae *oxygen* yn drymach o gryn gettyn; ac felly yn ol y rheol gyffredinol, sef *gravitation,* byddai *oxygen* ar y gwaelod, a *nitrogen* neu azote ar lan; ac felly byddai genym gylch o oxygen tua chwech neu saith milldir o drwch yn amgylchynu ein daear i anadlu ynddo; a'r canlyniad fyddai, y byddem fyw yn ddedwydd iawn am ychydig oriau, ac yna marw. Ond meddylier, er mwyn cadw bywyd, ein bod yn gallu myned trwy yr *oxygen* yma at yr *azote* uwch ben, sef y cylch uchaf, a fyddai tua 23 neu 24 milldir o drwch. Beth wedi'n? Os drwg o'r blaen, gwaeth wedi'n; oblegid y funud y gwnaem anadlu hwn, byddem farw yn gymmwys. Gellid sylwi hefyd, pe *oxygen,* y trymaf, fyddai ar y gwaelod, y byddai y wreichionen leiaf o dân yn ddigon i osod y byd yn wenfflam, heb fodd i'w ddiffodd nes llosgai'r byd yn ulw mân. Dyma berygl *cyffredin* i fywyd ynte; a lle byddo *perygl cyffredin,* y mae'r *rheol gyffredin* yn cael ei thorri; ac felly y mae oxygen, y tawch trymaf, ymhob man *gyda'r* tawch ysgawnaf, yn gymysgedig ag ef yn wastad, ac yn yr un *proportion* hefyd, sef, 1-5 *oxygen* a 4-5 *azote;* a chadw bywyd yw'r amcan.

Rheol gyffredin arall yw fod gwres yn peri i bob peth chwyddo, ac oerfel yn peri iddynt dynnu attynt. Daliwch waelod, *bulb,* thermometer yn eich llaw, ac yn union cewch weled yr arian byw, neu beth bynnag fyddo ynddo, yn cyfodi i'r lan yn y *tube;* tynnwch eich llaw ym-

aith, a chewch ei weled yn disgyn drachefn. Y rheswm yw, fod gwres y llaw yn peri iddo chwyddo a chyfodi, a'r oerfel, wedi y tynner y llaw ymaith yn peri iddo dynnu atto, ac felly y mae'n dyfod i lawr. Felly hefyd y mae'n bur adnabyddus i ofaint, ac eraill sydd wedi sylwi arnynt yn rhwymo *wheels*, fod yr haiarn yn chwyddo gan wres, ac fod y cylch yn fwy na'r wheel pan yn goch, a'i fod yn tynnu atto wrth daflu dwfr arno i'w oeri. Yr un modd y mae gyda golwg ar bob peth arall adnabyddus i ni. Dyma REOL GYFFREDIN ynte. Ond er mor gyffredin ydyw, y mae un eithriad ryfedd oddiwrthi yn y dwfr sydd mor wasanaethgar i bob creadur byw; a hynny sydd dda hefyd. Y mae gwres yn peri i'r dwfr, fel pob peth arall, chwyddo, ac oerfel yn ei dynnu yng nghyd; ac wedi i'r dwfr ar y wyneb gael ei dynnu ynghyd, y canlyniad yw ei fod yn dyfod yn drymach na'r dwfr sydd odditano, ac felly yn soddi i'r gwaelod. Ond beth pe buasai hyn yn parhau o hyd; yna buasai iâ yn dechreu yn y gwaelod, a pharhai i rewi o'r gwaelod i fynu, nes troi pob diferyn o ddwfr yn y moroedd a'r afonydd yn un telpyn o iâ *solid;* yna byddai pob creadur yn y dyfroedd farw yn union, a phob creadur ar y tir maes o law ar eu hol hwynt. Dyma *berygl cyffredin* etto i fywyd ynte, ac y mae'n rhaid i'r rheol gyffredin a enwyd gael ei thorri, neu i fywyd ddarfod. Fel y gallesid disgwyl, y mae *hon etto* yn cael ei thorri, lle y mae perygl o'i chadw. Yn ganlynol yr ydym yn cael fod y dwfr yn parhau i dynnu atto a syrthio i'r gwaelod yn barhaus hyd nes cyrraedd 40 gradd ar *thermometer Fahrenheit;* ond wedi cyrraedd y gradd hwn, y mae yr un oerfel a wnai i'r dwfr *dynnu atto* o'r blaen, yn peri iddo *chwyddo* yn awr; a phan êl i lawr hyd 32 gradd, sef y *freezing point*, y mae'r dwfr yn chwyddo yn gyflym anghyffredin, yn saethu ymaith yn *gristals*, ac y mae iâ yn cael ei ffurfio, yr hwn sy'n ysgafnach o lawer na'r dwfr odditano, a'r canlyniad yw fod yr iâ yn wastod ar y wyneb. Gwyr pob plentyn fod perygl i'r iâ dorri pan yn *sleido* arno, oherwydd fod dwfr odditano. Dyma'r rheol wedi ei thorri ynte. Ac i beth? Onid yw yn amlwg, mai i gadw bywyd?

Gyda golwg ar greaduriaid a gwaed twym ynddynt *(warm-blooded animals)*, gallesid estyn yr un sylw at holl amgylchiadau eu bywyd. Y mae pob un yn gwybod fod gwres, mewn cymedroldeb, yn bleserus a defnyddiol i ddyn. Gallesid meddwl, gan fod ychydig o wres yn rhoddi pleser, y gwnai rhagor roddi mwy; ond nid felly y mae. Y mae gormod o wres yn dinystrio bywyd, ac felly, er mwyn cadw bywyd, y mae yn rhoddi poen yn lle hyfrydwch; dyma reol *gyffredinol* arall etto yn cael ei thorri er mwyn cadw bywyd. Gallasem wneud yr un sylw ar ormodedd o bob peth; megis gormod o ymborth, diod, dillad &c. ond gadawaf hyn yn bresennol, a chyfleaf yr ymresymiad, neu'n hyttrach y ffeithiau uchod, at y pwngc dan sylw.

Y mae Duw fel y gwelwyd, wedi rhoddi rheolau cyffredinol i'r awyr, y dwfr, y gwres, yr ymborth &c. ond, pan y mae hynny yn angenrheidiol, y mae yn eu torri, a hynny er mwyn cadw bywyd am ychydig o flynyddau ar yr hwyaf: gan hynny, os ydyw bywyd mor anwyl yn ei olwg, o gymmaint gwerth ganddo, ag i dorri rheolau nattur er mwyn ei gadw am *ychydig*, a ydyw yn groes i'w ddoethineb a'i dadoldeb, i dorri y rheol gyffredinol sydd yn peri i ddynion farw, er mwyn eu dychwelyd i fywyd, a'u cadw mewn bywyd; nid am *ychydig*, ond am byth; nid am flynyddau, onid dros oesoedd diderfyn trag'wyddoldeb? Pa atteb sydd genych i'r gofyniad hwn, ddarllenwyr anwyl? Beth bynnag yw, y mae'n rhaid i mi ddywedyd, er nad oes yma ddim *prawf*, yr Iesn yn unig sydd yn rhoddi hwnnw, etto y mae yma bob lle i ddisgwyl y gwnaiff Duw dorri cadwyni angau: a phan ar un llaw yr ystyriwyf nerth y profion, cadernid y dystiolaeth sydd gennym ei fod ef wedi gwneuthur hynny

trwy gyfodi ein Harglwydd anwyl o'r bedd; ac ar y llaw arall wendid anghydmarol y gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn y dystiolaeth hon, y mae'n rhaid i mi atteb gofyniad Paul yn naccaol, sef, NAD angrhedadwy y bernir gennyf fi, na chan ddarllenwyr yr *Ymofynydd* chwaith, gobeithiaf, Y CYFYD DUW Y MEIRW.

Felly y mae cadarn sail ein gobaith ni yn aros: ni a gawn fyw etto maes o law, i dderbyn yn ol ein gweithredoedd, yn ol yr hyn a wnaethom yn y corph, pa un bynnag y fyddo hynny ai da ai drwg. Cawn, ni gawn fyw etto: caiff y marwol hwn wisgo anfarwoldeb cyn hir, a'i alluogi i ddywedyd wrth angau ei hun, mewn iaith fuddugoliaethus, "O angau, pa le y mae dy golyn? O Uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth?" Wele ddeiliad y bedd wedi gadael yr amwisg, a chwedi eu harwisgo âg anllygredigaeth, ac i fod felly am byth mwy. O newydd anrhaethadwy ei bwys! Mawl i Dduw am dano.

Ydwyf, &c.

O. EVANS.

DUW A'I DDIBENION YN OL EI AIR.

YN fy llythyr diweddaf dangosais fod Duw yn Hollwybodol, Hollalluog, ac yn anfeidrol dda, a bod diben ei gospedigaethau yn dda; ond dylaswn gyfeirio y darllenydd at Gaethglud Babilon, yr hwn a burodd yr Iuddewon o'u heilunaddoliaeth; ac at y newyn, a yrrodd yr afradlon tua thŷ ei dad. Dygais hefyd engraipht neu ddwy i brofi fod Duw yn dwyn oddi amgylch ei ddibenion daionus trwy ddrygau pechaduriaid. Er fod pob dyn yn cofio am lawer tro, mae balchder a nwydau drwg ei gymmydogion, ac efallai ei gyfeillion; wedi bod o lês iddo ef ei hun; etto goddefer i mi ddwyn un prawf arall o'r pwngc, yr hwn a gawn yn y gwirioneddau dwyfol.

Yng nghyflawnder yr amser cyfododd haul fawr y cyfiawnder, ac a'i belydrau disglair llewyrchodd ar wlad Canaan. Gwyr pob dyn, sydd yn arfer darllain hanes bywyd ein Harglwydd Iesu Grist, mai am ei amcan *da*, y cafodd ei osod i farwolaeth—mai ei gariad at ei frodyr y Phariseaid a barodd iddo golli ei fywyd. Oni buasai ei fod yn eu canfod yn myned ar rwydd hynt tua'r dygn golledigaeth, ni fuasai byth yn dywedyd, "Gwae chwi ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, canys yr ydych yn cau teyrnas nefoedd o flaen dynion; canys chwi nid ydych yn myned i mewn; a'r rhai sy'n myned i mewn; ni's gadewch i fyned i mewn:" a'r cyffelyb eiriau.* Ond yn lle coelio ei bregethau iddynt, gyrrodd eu balchder crefyddol hwy i gynllwyn am ei fywyd. Parasant i Pilat ei groeshoelio, er tystio o'r barnwr ochrog nad oedd ef yn cael un bai yuddo. Talasant *ddrwg* am *dda*. Dygasant ei fywyd marwol *am iddo gynnyg bywyd tragywyddol iddynt.* "Hwn," meddai Pedr wrthynt ar ddydd y Pentecost, "wedi ei roddi trwy derfynedig gyngor, a rhagwybodaeth Duw, a gymmerasoch chwi, a thrwy ddwylaw anwir a groeshoeliasoch, ac a laddasoch: yr hwn a gyfododd Duw gan ryddhau gofidiau angau &c." Rhaid ynte mai nid peth damweiniol oedd dioddefeint ein Hiachawdwr; ond rhan o'r cynllun tragywyddol, er dwyn oddi amgylch ddedwyddwch teulu dyn. Amlwg yw, fod anian falch, dialgar, a gwaedlyd y Phariseaid, yn anhepcorol angenrheidiol, er boddloni yr oesoedd i ddyfod fod yr Iesu wedi ei groeshoelio. Rhag iddo adfywio ar ôl ei dynnu i lawr, y gwanodd y milwr Phariseaidd y wayw-ffon yn ei ystlys, nes ydoedd gwaed ei galon, yng nghyd a dwfr yn llifo allan. Wedi torri gwisg

* Gwel Mathew xxiii.

y galon, mae angeu yn sicr o ganlyn yn ddioed. Pe na buasai wedi marw o'r blaen, ni allasai dim, ond gwrthiau Duw i'w gadw yn fyw wedi'n. Rhag ofn twyll ei ddysgyblion dodwyd *Seal* y brenhin ar ei fedd; a gwylwyr i'w gadw. Er y cyfan, daeth allan yn flaenffrwyth i'r rhai a hunasant; ac yn sicrwydd i ninnau, y cawn fyw yn anllygredig er gwaethaf angeu a'r bedd. Pwy heb hyn ôll a gredasai y dydd heddyw ei fod wedi adgyfodi? Galaru heb obaith y buasem wrth edrych tua'r bedd. Mor fawr gan hynny yw y daioni a gawsom o ddrygau y Phariseaid! Pe buasai Pilat heb wyro barn a'r milwr heb ei wayw-ffon, buasai adgyfodiad, a bywyd anllygredig, heb eu dwyn i'r goleuni. Gwelwn yn eglur fod Duw yn peri i dda gyfodi hyd y nod o ddrwg.

Fel hyn ynte, yr wyf wedi profi yn eglur i bob dyn diragfarn, fod Duw yn Anfeidrol ddoeth a da, ac yn Hollalluog i gyflawni ei amcanion, yn ol tystiolaeth ei air. Nid yn unig hyn, ond hefyd dangosais ddiben cospedigaethau Duw—fod y rhai hyn wedi atteb eu diben lawer tro. Profais hefyd fod Duw yn dwyn daioni allan o ddrwg. Beth ynte a'i rhwystra i ddwyn ei amcanion gogoneddus i ben. Dim, Dim. Rhaid yw, fod amser i ddyfod, yn yr hwn y bydd pob dyn wedi ei buro o'i holl ddrwg, a holl deulu dyn, ie pob creadur rhesymmol wedi ymwrthod hyd yn ddiderfyn a phob drwg ac anwiredd. Diau fod yr amser y mae Iolo Morganwg gyda y fath wrêsogrwydd yn canu am dano, wedi ei osod yn nhrefn Duw:

> "Achosion cosp a lwyr ddarfyddant;
> Neb mwy'n wrthddrychau min eu cledd:
> Llymderau cerydd a ddiweddant,
> Yn gan tirlondeb, llafar hedd:
> Bydd dwyfol gariad yn rheoli;
> Neb yn ddigofus, neb yn drist:
> Pob peth mewn bod yn ymnefoli;
> Pob man yn deyrnas Duw a'i Grist.

Mae pob Cristion yn cyfaddef fod diben da yng ngheryddon Duw, yn y bywyd sydd yr awr hon, ond gyda'r angnghysondeb mwyaf, barna llawer y newidia Duw ei amcanion, yn y byd sydd i ddyfod—na fydd dim ond ymddiffyn y gyfraith foesol yno—dangos ei phurdeb a'i chasineb at ddrwg. Os hyn yw diben Duw wrth gospi yn ôl angeu, mae yn eglur mai moesoldeb ei gyfraith yw dial a gorfoleddu mewn poen. Gwneuthur drwg o gariad at y gyfraith foesol yw; *os oes moesoldeb yn perthyn iddi.* Beth yw Duw fwy dieuog na'r pechadur, a boeno ei gyd ddyn er mwyn ei elw ei hun? Mae gan y ddau amcan, ond sicr yw, nad oes un daioni ynddo. Och rhag y fath amcan ac ymddiffyn cyfraith sydd yn dial yn ddiderfyn! Poeni yn dragywyddol, o gariad at gyfraith sydd yn gwarafyn poeni!! Nid gwaith cyfiawnder yw hyn.

Yr hyn sydd wedi peri i lawer dyn dysgedig, a da, i goleddu y fath olygiadau tor-galonus am Dduw yw, ei gam esponiad o rai mannau o'r dadguddiad dwyfol, megis y geiriau canlynol yn y xxv. o Fathew a'r 46, "A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth tragywyddol ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol." "Dyma" meddant "eiriau pendant o enau ein Harglwydd Iesu Grist ei hun, a pha ddiben yw tynnu casgliadau, nag oddi wrth natur, nag o'r Bibl yn groes i athrawiaeth eglur fel hon. Gwadu'r ysgrythyrau mae pawb ddywedo yn groes; a gosod eu rheswm cnawdol yn uwch na gair Duw." Ai e? Os felly, y mae yn bryd pwyllo *yn wir.* Beiddiaf dywedyd, mai y geiriau *Cymraeg* yna sydd mewn golwg gan bedwar ugain a phedwar ar pumtheg o bob cant, pan yn arfer y iaith chwyddedig uchod. Ond nid Cymro oedd yr Arglwydd Iesu, ac nid yn Gymraeg yr oedd yn pregethu i'r Hebreaid. Yn y iaith Hebraeg, meddai yr henafiaid, yr ysgrifennodd Mathew hanes bywyd ein Harglwydd Iesu Grist. Os gwir hynny, mae yn amlwg nad yw y cyfieithad Cymraeg, ond cyfieithad, o gyfieithad o'r geiriau a arferodd Mathew. Ond, a gadael fel y barna rhai diwynyddion ar ol diwygiad Martin Luther, mai yn yr iaith Roeg yr ysgrifennodd Mathew, nid yw y geiriau Cymraeg uchod ond esponiad o'r

Groeg, mor gywir ac y caniatai rhagfarn i'r cyfieithwyr ei rodd'i. Os methasant a deall y Groeg, nid oedd bossibl iddynt roddi y meddwl yn eglur yn y Gymraeg. Mae yn dra sicr genyf mai felly y bu; ac mai nid cospedigaeth dragywyddol yw y cyfieithad iawn o colasin aiönion ond *ceryddon oesol neu wastadol.* Mae pawb yn gyffredinol yn addef fod colasis yn arwyddo *cerydd er mwyn diwygiad;* ond ni all fod yr amcan hynny iddo, os yw i fethu yn ddiddiwedd a diwygio y ceryddedig.

"Yr ydym yn sylwi ynte," medd y gwir ddysgcedig Hugo Grotius, "fod cosp yn dwyn perthynas a llês y troseddwr, y troseddedig, neu ryw rai eraill. I'r blaenaf o'r tri diben hyn y perthyn y gosp, a elwir gan Philosophyddion, weithiau nouthesia, weithiau colasis, ac weithiau parainesis. Gelwir hi gan Paulus y Cyfreithiwr, cosp yr hon sydd yn cael ei rhoddi er mwyn diwygiad; gan Plato, *sophroniseos heneca, er gwneuthur yn gallach;* a chan Plutarch *iatreia psyches animi medicatrix,* meddyginaethol [meddyginiaeth?] yr eneid &c."

*Mae hynna yn ddigon i brofi beth yw ystyr y gair colasis; a chaiff lonydd, ar ôl sylwi fod Simpson, un o'r esponwyr goreu, o'r farn mai er mwyn dangos amcan y gosp tu hwnt i angeu yr arferodd Mathew y gair colasis yn xxv. 46. yr unig le y mae yn cael ei arfer, mewn perthynas a chosp y pechadur tu draw i'r bedd.

Am y gair aionion a gyfieithir yma tragywyddol sylwn yn gyntaf, ei fod yn gysansawdd, o'r ddau air *aei* yn wastadol ac *ôn* yn bod. Mae aeon ac aeonios o ystyr helaeth iawn, weithiau yn arwyddo oes dyn; megis Ps. xxi. 4. "Gofynodd oes gennyt," sef Dafydd, "a rhoddaist iddo hir oes, byth, ac yn dragywydd." Mor wired a bod *colasin aeionion* yn arwyddo poenau diddiwedd, mae Dafydd frenhin Israel heb farw erioed. Weithiau maent yn arwyddo parhâd cyhyd a'r byd; bryd arall gorychwyliaeth Rhagluniaeth neu oes. Yn Mat. xiii. 22, darllenwn "A'r hwn a hauwyd ym mhlith y drain, yw yr hwn sydd yn gwrandaw y gair; ac y mae gofal y byd (tou aionos) hwn &c," nid y tragywyddoldeb hwn. 39 "A'r cynhauaf yw diwedd y byd &c." (tou aionos). 40 "Felly y bydd yn niwedd y byd hwn (tou aionos toutou).‡—Mat. xxviii. 20, "Ac wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd" (tou aionos); hynny yw hyd ddiwedd yr oes Apostoledd, neu wrthiol. Luc. xvi. 8, "Oblegid y mae plant y byd hwn, (tou aionos toutou) yn gallach yn eu cenedlaeth na phlant y goleuni." Ioan viii. 35, "Ac nid yw y gwas yn aros yn y ty byth: y Mab sydd yn aros byth" (eis ton aiona). ix. 32, "Ni chlybuwyd erioed (ec tou aionos) agoryd o neb lygaid un a anesid yn ddall." Rhuf. xii. 2, "Ac na chyd-ymffurfiwch a'r byd hwn (to aioni touto). 1 Cor. i. 20, "Pa le y mae y doeth? pa le y mae yr ysgrifenydd? pa le y mae ymholydd y byd hwn" (tou aionos toutou)? nid y tragywyddoldeb hwn. ii. 7, "Yr hon a ragordeiniodd Duw cyn yr oesoedd i'n gogoniant ni," (pro tön aiöniön) nid cyn y tragywyddoldebau.† Mae hynna yn ddigon i brofi, fod i'r gair ystyr ddarfodedig ac ni all yr *adjective aionios,* sydd yn cael ei ffurfio o hono, arwyddo mwy nag a arwyddo y peth ei hun; rhaid am hynny fod ystyr ddarfodedig i'r naill fel y llall: yn wir y mae Cruden yn ei *Goncordance* dan y gair *eternal* yn dywedyd yr un peth, sef nad yw y gair bob pryd yn arwyddo amser diderfyn.

---

* Gwel Grotius De jure belli et pacis: liber II. c. 20, sec. 6.

‡ Gwel ad 49.

† Gwel etto Mat. xii. 32; Marc. iv. 19; Luc. xx. 34; 1 Cor. viii. 13; 2 Cor. iv. 4; Gal. i. 4: Ep. i. 21, ii. 2, iii. 9, 11. 21, vii. 12; Phil. iv. 20; Col. i. 26; 1 Tim. i. 17, vi. 17; 2 Tim. iv. 10, 18; Titus ii. 12; Heb. i. 2, 8, v. 6, vi. 15, 20, vii. 17, 21, 24, 28, ix. 26, xi. 3, xiii. 8, 21; 1 Pedr i. 23, 25, iv. 11, v. 11; 2 Pedr ii.. 17, iii. 18; 1 Ioan ii. 17; 2 Ioan, 2; Judas 13; Dad. i. 6, 18, iv. 9, 10, v. 13, 14, vii. 12, x. 6, xi. 15, xiv. 11, xv. 7, xix. 3, xx. 10, xxii. 5.

Mae y geiriau (yn y Deg a thrugain,) yn cael eu harfer am amser darfodedig yn y llefydd canlynol, Exod. xxi. 6, "A thylled ei feistr ei glust ef a mynawyd; a gwasanaethed ef byth (eis ton aiôna), hynny yw tra bo byw, ac nid pan bo y naill yn y nef, a'r llall yn uffern. Preg. i. 4, "Un genedlaeth a â ymaith, ac un arall a ddaw ond y ddaear a saif byth" (eis ton aiona). Exod. xv. 18. "Yr Arglwydd a deyrnasa byth ac yn dragywydd," (ton aiona cai ep aiona cai eti) o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb ac etto, neu ac ym mhellach. Dan. xii. 3, "byth yn dragywydd" (eis ton aiona cai eti), am dragywyddoldeb ac etto, neu ar ôl hynny. Micah iv. 5, "A ninnau a rodiwn yn enw yr Arglwydd ein Duw byth ac yn dragywydd" (eis ton aiona cai ep eceina). Yn y tri lle uchod, rhaid mai ystyr ddarfodedig sydd i'r gair. Dywed Simpson "Mae y gair aiônios i'w gyfarfod tua chant o weithiau yn y Testament Newydd, ac mewn trugain a deg o honynt mae yn eglur ei fod yn cael ei arfer am amser terfynedig o barhâd. Yng nghyfieithad y deg a thrugain o'r Hen Destament y mae yn cael ei repeto, a sawl tro ddwy waith."

Wedi profi trwy yr ysgrythyrau, fod *y peth (the substantive)* yn cael ei arfer mewn ystyr derfynedig, nid yw mor anghenrheidiol i ddangos fod *y fath (the adjective)* yn cael ei harfer yn yr un modd: etto nid anfuddiol fydd adrodd adnod neu ddwy ar y pwngc. Gen. xvii. 8, 13, 19, "Ac mi a roddaf i ti, ac i'th hâd ar dy ol di, wlad dy ymdaith, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragywyddol (cataschesin aionion) * * * fel y byddo fy nghyfammod yn eich cnawd chwi, yn gyfammod tragywyddol (eis diathecen aiönion) * * * Ac mi a gadarnhäf fy nghyfammod ag ef yn gyfammod tragywyddol i'w hâd ef ar ei ol." Mae yr Iuddewon wedi colli gwlad Caaan; ac y mae cyfammod yr enweidiad wedi ei ddiddymmu gan y cyfammod newydd a ddaeth trwy Iesu Grist. Num. xxv. 13, "A bydd iddo, ac i'w had ar ei ol yn ammod o offeiriadaeth dragywyddol (diathece aionia) am iddo eiddigeddu dros ei Dduw a gwneuthur iawn dros feibion Israel."

Exod. xl. 15, "Ac eneinia hwynt, megis yr eneinieist eu tad i offeiriadu i mi, fel y byddo eu heneiniad iddynt yn offeiriadaeth dragywyddol drwy eu hoesoedd." Nid had Aaron sydd offeiriad yn awr ond, Iesu Grist o lwyth Juda; am hynny, mae y tragywyddol yna wedi darfod.*

1 Chron. xxii. 10. "Cadarnhaf hefyd orseddfa ei frenhiniaeth ef ar Israel am byth." Dyna fyth wedi myned heibio, canys syrthiodd gorseddfa brenhiniaeth Solomon cyn geni ein Harglwydd Iesu Grist.

Philem. 15, "Canys ysgatfydd er mwyn hyn yr ymadawodd dros amser, fel y derbynit ef yn dragywydd." (aiönion). Canodd Philemon, ac Onesimus ei gaethwas, yn iach i'r fuchedd hon, er ys yn agos i ddeunaw cant o flynyddau: "fel y derbynit ef, ac na bo achos i't ofni ei golli, na'i gael mwyach yn anffyddlon tros y gweddill o'i fywyd," oedd meddwl Paul, ac nid dros oesoedd diderfyn y byd i ddyfod.

Mae lle i ofni fy mod wedi galw ym mlaen fwy o dystion, i brofi na ddylai *aionion* gael ei gyficithu *tragywyddol*, yn Mat. xxv. 46, nag a holir gan fwy na hanner y barnwyr, o flaen y rhai y mae yn sefyll ei brawf;† ac er nad ydynt yn un fryd yn barnu mai cael

* Gwel etto Is. lx. 15; Gen. xiii. 15, xliii. 9; Ex. xii. 14, 24; Num. x. 8, xviii. 19: Deut. xv. 17; Jos. viii. 28, xiv. 9; 1 Sam. ii, 35, xxviii. 2; Dafydd yn geidwad pen Achish yn dragywydd. 2 Sam. ii. 26, vii 29; 2 Bren. v. 27; Ps. xxiii. 6; xxxvii. 18, ac amrywiol o fanneu ereill. Gwel Cruden's Concordance.

† Dymunaf ar y rhai sydd yn barnu i'r cyficithwyr wneuthur chwareu teg a'r gair, holi y tystion canlynol at y rhai a glywsant eisioes, Mat. xviii 8, xix. 16-19; Marc iii. 29, x. 17-30; Luc x. 25, xvi. 9, xviii. 19-30; Ioan iii. 15, 16, 36, iv. 14, 36, v. 24, 39, vi. 27, 40, 47, 54. 68, x. 28, xii. 25, 50, xvii. 2, 3; Act. xiii. 46, 48; Rhuf. ii. 7, v. 21, vi. 22, 23, xvi. 25, 26; 2 Cor. iv. 17, 18, v. 1; Gal. vi. 8; 2 Thes. i. 9, ii. 16; 1 Tim. i. 16, vi. 12,

cam y mae, gwn fod llawer gyda mi yn dywedyd, Ie *cam* i gyd a wnaed ag ef. Ni chablodd Dduw yn y modd y cyhuddir ef erioed, ac nis gall chwaith, oherwydd y mae yn amlwg fod ei ystyr yn ymddibynnol ar y peth, a fyddo yn ddarlunio. Os peth darfodedig yn ei natur (fel oes Dafydd neu Onesimus) y mae yn ddarlunio, rhaid iddo ddarfod pan farw y dynion hynny: felly y gwnaeth gydag offeiriadacth dragywyddol Aaron. Ni all am hynny brofi nad diben doeth a da, fydd gan Dduw anghyfnewidiol gariad tu hwnt i angeu. Gan mai cerydd er gwelläd yw colasin, rhaid y derfydd, a'i (aionion) dragywyddol gydag ef, cyn gynted ag yr attebo ddiben ei osodiad—cyn gynted ag y bydd iddo buro pob drwg allan o greadigaeth Duw. Bydd y pryd hwnnw "holl deurnasoedd y byd yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Crist ef"—yn un llu o wynfydedigion hyd fyth heb derfyn.

ESBONIADAU AR PHIL. II. 6.

PIGION.

Phil. ii. 6. "Yr hwn ag efe yn ffurf Duw ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch a Duw."

Beth yw meddwl y geiriau uchod? Dywed Dr. Doddridge mai dyma ydyw.

"Yn yr ystyr hon ac ymhob ystyr arall, *bydded yr un meddwl* ymhob un o honoch *chwi*, yr hwn oedd hefyd mewn grâdd mor ardderchog a chariad-lawn *yng Nghrist Iesu*, yr hwn yr ydym yn alw yn Feistr ac yn Arglwydd, hyd yn oed yn y person gogoneddus ac addoladwy hwnnw, *yr hwn ag efe yn ffurf Duw*, ymhell cyn ei ymddangosiad yn y cnawd, a'r hwn er oesoedd trag'wyddoldeb, ag efe mewn meddiant o berffeithderau a gogoniant dwyfol, pan yn amlygu ei hun i'r Patriarchiaid a'r prophwydi gynt, *ni thybiodd yn drais* a thrawsfeddiant, *i fod* ac ymddangos *yn Dduw*, gan gymmeryd iddo ei hun yr enwau dwyfol uchelaf, teitlau a phriodoleddau, trwy y rhai y darfu i'r Goruchaf Fod hyspysu ei hun, gan dderbyn oddiwrth ei weision anrhydedd ac addoliad dwyfol."

Y mae M. Abauzit yn sylwi fel y canlyn ar y geiriau: rhoddaf ei esboniad ef, mor agos ag y gallaf, yn ei eiriau ef ei hun, gan nad yw'r llyfr i'w gyfarfod ond yn anaml.

"I'r diben i egluro'r geiriau hyn gyda chywirdeb a ffyddlondeb, dylid ystyried beth yw gwir ystyr pob rhan. Y mae rhai ymadroddion yn yr iaith wreiddiol y sydd ychydig yn hynod: ni a chwiliwn bob un ar ei ben ei hun, ac yn ol y drefn y maent ar lawr.

"Y mae'r gair *ffurf*, *morphē*, yn arwyddoccau *ymddangosiad*, *llun*, *ymddangosiad allanol*, y ffurf honno sydd yn wrthrych y synwyrau. Er engrhaifft, dywedir am ein Harglwydd, iddo ymddangos i ddau o'i ddysgyblion mewn *gwedd* arall [en hetera morphē], hynny yw, mewn dull allanol gwahanol, ar wedd dyn dieithr. Y mae bod yn ffurf Duw, gan hynny yn arwyddoccau bod ar ddelw Duw, fel y mae Father Bouhours wedi ei gyfieithu yn dda iawn. Nid oherwydd, â siarad yn briodol, fod un ffurf i Dduw, neu y gall gael ei osod allan trwy un ddelw: nid yw'r ymadroddion ffigwraidd hyn yn arwyddo dim amgen na bod Iesu Grist yn debyg i Dduw mewn rhyw ystyr. Yr oedd y Paganiaid yn cymhwyso'r ymadrodd *morphai theōn*, *ffurfiau y duwiau* i'w delwau a'u darluniau. Gyda llawer mwy o gymwysder y gellir dywedyd hyn am Iesu Grist, y ddelw fyw honno o Dduw, delw a wnaeth Duw â'i law ei hunan, ac ar yr hon yr argraphodd y fath nodau disglaer o'i bresenoldeb ei hun.

"Er ei fod yn ffurf Duw, *ni thybiodd*

16, 19; 2 Tim. i. 9, ii. 10; Titus i. 2, iii. 7; Heb v. 9; vi. 2, ix. 12, 14, 15, xiii. 20; 1 Pedr v. 10; 2 Pedr i. 11; Ioan i. 2, ii. 25, iii. 15, v. 11, 13, 20; Judas 7, 21; Dad. xiv. 6.

yn drais fod yn ogyfuwch â Duw. Y mae'r ymadrodd hwn yn perthyn yn neillduol i St. Paul, ac nid yw braidd i'w gyfarfod mewn ysgrifeniadau paganaidd. Yn yr iaith wreiddiol y mae air yngair fel hyn: 'Ni chyfrifodd yn ysbail bod yn gyffelyb i Dduw': hynny yw, ni thybiodd mai ysglyfaeth oedd, ni feddyliodd y gallai ei briodoli iddo ei hun. Byddai hyn yn ddigon o awdurdod dros ein deongliad: er hynny priodol ei gadarnhau trwy esiamplau. Yn hanes Ethiopia gan Heliodorus, y 7fed llyfr, y mae menyw yn annerch Theagenes gan wneuthur cynnyg iddo, ac mewn syndod am ei fod yn gwrthod ei chynnyg, y mae hi yn gwaeddi allan, 'Beth! Gwneud y fath gynnyg i ddyn ieuangc, ag yntau ddim yn ei ystyried yn ysbail werthfawr, yn ddigwyddiad dedwydd,' *kai ouch harpagma, oude hermaion hēgeitai to pragma.* Y mae'r Apostol yma yn arfer yr un ymadrodd, yr hwn y mae y Rhufeiniaid hefyd wedi fenthycca oddiwrth y Groegiaid, ac efallai fod y Groegiaid eu hunain wedi benthycca oddiwrth eraill, gan y rhai yr arferid ef yn fwy aml. Y mae Cicero, yn ei 3dd araith yn erbyn Verres, yn ei gyhuddo ef o anrheithio Sicily. Ebe fe, "*Omnium bona prædam suam duxit.* Yr oedd yn cyfrif meddianau pawb yn ysbail iddo ei hun". Y mae'r ymadrodd hwn yn atteb yn gymmwys i'r Groeg, a phe buasai yr areithydd Rhufeinig yn siarad yn yr iaith honno, dywedasai, *ta panton onta harpagmon hegesato.*

"Yn oesoedd cyntaf Cristnogrwydd, cyn i'r iaith Roeg ddarfod, a chyn i ddifynyddiaeth yr ysgolion gael ei huno a chrefydd, yr oedd yr adnod dan sylw yn cael ei deall yn yr ystyr hyn. Y mae ar glawr yn awr lythyr eglwysi Vienna a Lyons, wedi ei ysgrifenu yn y flwyddyn 177, ac un o gof-adeiliau arderchoccaf hynafiaeth Cristnogol. Y maent yma yn canmol mulder eu mherthyron, yn gymmaint, yn ol esiampl Crist, yr hwn ag efe yn ffurf Duw, ni chyfrifodd bod yn gyffelyb i Dduw fel ysbail neu anrhaith, nad oedd y Cristnogion hyn hefyd 'ddim yn chwenych cael eu hanrhydeddu a rhagoriaeth merthyron. Y mae Origen, ymhen amser ar ol hyn, yn cadarnhau yr un esboniad; 'Fi fentraf haeru, ebe fe, fod ardderchawgrwydd a mawredd Iesu Grist yn llawer mwy ysplenydd pan y darostyngodd ei hun, na phe buasai yn ystyried bod yn gyffelyb i Dduw yn ysbail, a gwrthod dyfod yn was er iechydwriaeth y byd,' *ē ei harpagmon to einai isa theō, kai mē boulētheis epi tou kosmou soteria genesthai doulos.* Mewn man arall y mae'n dywedyd, 'Mai'r dyn a ddyrchafwyd yw yr hwn ni thybiodd mai ysglyfaeth oedd bod yn debyg i Dduw, ond fod y Gair, neu'r duwdod oedd wedi ei uno ag ef, bob amser yn ei uwchafiaeth hanfodol'. Y mae hyn yn ddigon o awdurdodau; yn awr awn ymlaen at ymadrodd yr Apostol.

"Yn ol fy marn i, ni ddylai'r ymadrodd, bod yn *ogyfuwch a Duw*, yr hwn ni wnai ein Harglwydd briodoli iddo ei hun, gael ei ddeall fel pe buasai yn meddwl cymmeryd arno fod yn gydradd a'r Goruchaf, a'i fod ar ol llaw wedi gwrthod y meddwl hwn oddiar egwyddor o uniondeb a gostyngeiddrwydd. Ni fuasai hyn yn arddangos unrhyw ostyngeiddrwydd mawr. Amcan yr Apostol yma oedd gosod allan yn unig beth oedd yn ymddangos yn allanol yn ei holl ymddygiad, neu y dull doeth a llariaidd y gwnai atteb cableddau yr Iuddewon, y rhai, a hwynt yn orwyllt am ei ddinystrio, a'i camgyhuddent ef o wneuthur ei hun yn ogyfuwch a Duw. Goddefer i mi ychwanegu un sylw arall, sef y gallwn, yn lle'r geiriau *bod yn ogyfuwch a Duw*, gyfieithu'r Groeg fel hyn, *bod fel Duw*, neu'n gyffelyb i Dduw. Y mae'r ymadrodd yn cael ei arfer yn y Groeg yn fynych, nid yn unig i arwyddoccau cydraddoldeb ond tebygolrwydd yn unig. Felly y mae Homer yn dywedyd am Ulysses, ac yn yr un geiriau a St. Paul, 'Fod trigolion Ithaca yn ystyried y tywysog hwn *fel Duw*:' isa theō Ithakesioi eisoroōsi: nid oherwydd eu bod hwy mewn gwirionedd yn ei gymmeryd

ef yn lle Duw, ond yn unig fel rhyw beth mawr, ardderchog, a'r hwn oedd yn meddu, os cymmwys yr ymadrodd, mwy o dduwdod nac o ddyndod. Ond dyma garacter anghydmarol uwch: caracter Crist.

"Dychymygwch, gan hynny, am dduwioldeb perffaith, am ostyngeiddrwydd ac ewyllys da tuhwnt i ddim a fu erioed, am wybodaeth y fwyaf cywraint, am lywodraeth hollol dros nattur, dychymygwch am fîl o gynheddfau yn cyd-gyfarfod yn yr un person &c. * * * Y pictiwr hwn o'r duwdod a welwch yn Iesu Grist, ac etto ni ddarfu iddo erioed wneuthur ymddangosiad gwag-ogoneddus o gyffelybrwydd mor uchel; yma y gwelwch fawredd a mawrhydi, ond yn wastad yn gyssylltiedig a'r gostyngeiddrwydd mwyaf isel. Ymhell o dynnu testyn gwagedd oddiwrth ei wyrthiau, mae'n ofalus i'w cadw hwynt rhag dyfod yn adnabyddus i'r cyhoedd. Gelyn rhodres a gwag ogoniant, y mae'n dewis sefyllfa isel o flaen hynodrwydd, nid yw yn ymestyn am yr ysbail yr hwn y mae'r trachwantus mor awyddus i'w gyrraedd. Yn meddu ffurf Duw, y mae ef yn ei hamwisgo a llen o gnawd egwan: ni chyfrifôdd ei debygolrwydd i Dduw fel camp-dlws gwerthfawr, ac ni thaer-ymofynodd am dano, eithr efe a ddihattrodd ei hun o hono, gan gymmeryd arno ffurf gwas, a dyfod fel dynion eraill, ac mewn ymddangosiad allanol, yr oedd fel dyn yn unig." Felly Abauzit.

Meddwl Slichtingius ar y geiriau dan sylw yw'r hyn a ganlyn, yn ol fel yr wyf fi yn ei ddeall. "Er fod Crist yn ddelw Duw trwy'r gallu gwyrthiol a ymddiriedwyd iddo, etto ni thybiodd mai ysbail oedd y gallu hwn, i'w *gadw yn awyddus* er ei fwyn ei hun; ond mai rhodd, ffafr Duw oedd ac nid ysbail, i'w ddefnyddio yn ol ewyllys Duw; yn ganlynol pan oedd Duw yn ewyllysio, a dedwyddwch dynolryw yn gofyn hynny, efe a waghâodd ei hun o hono, ac a'i rhoddes yn ol i'r Tad, ac a fu farw farwolaeth caethwas, yn hyttrach na gwneuthur defnydd o'r gallu a gafodd i achub ei hun, a thrwy hynny attal amcan Duw ac achubiaeth dyn i gael eu cyflawni." Slichting. in loco.

Dywed Mr. Grundy fel hyn; "Fel siampl o ostyngeiddrwydd, a rhyddhâd oddiwrth rodres a gwag ogoniant, y mae ef [Paul] yn dwyn i mewn Iesu Grist, yr hwn ag efe yn ffurf Duw, (yn meddu galluoedd dwyfol) ni thybiodd yr amgylchiad ei fod yn debyg i Dduw yn ysbail er mwyn ei foddhâd personol; eithr ni wnaeth gyfrif o hono ei *hun*, gan gymmeryd arno agwedd gwas (neu gaethwas), ag yntau mewn cyffelybrwydd (ymddangosiad) dynion eraill." Grundy's Lect. Vol. I. Lect. vii. p. 334.

Meddwl Mr. Belsham sydd debyg i hyn (nid wyf yn rhoddi cyficithad llythyrenol).—Fod Iesu Grist o ran ei ddoniau gwyrthiol wedi ei ddyrchafu ymhell uwchlaw dynion eraill, fod ganddo allu i lywodraethu cyfreithiau nattur pryd y mynnai, gan mai nid wrth fesur y rhoddodd Duw yr yspryd iddo; er hynny ni ddarfu iddo honni hawl yn y gwyrthiau yma fel ei eiddo ei hun, fel ei hawl natturiol ei hun; yr oedd yn gwybod mai peth wedi ei ymddiried iddo, mai *trust*, oedd y cyffelybrwydd hyn i Dduw, am yr hwn yr oedd yn rhaid iddo roddi cyfrif, ac felly na chyflawnodd wyrthiau ond i atteb yr amcanion oedd gan Dduw mewn golwg wrth gyfranu'r doniau hynny iddo. Ei fod yngorchwylion cyffredin bywyd yn gymmwys fel dynion eraill, fel na allesid ei wahaniaethu mewn un modd oddiwrthynt. Bu fyw fel caethwas, bu farw marwolaeth y groes i gyflawni ewyllys ei Dad, er fod ganddo ddigonol allu i achub ei hun; y cai osgordd o angylion i'w ymddiffyn pe'n angenrheidiol; ond hyn ni ewyllysiodd, eithr efe a waghâodd ei hun ac a ufuddhâodd hyd angau. Belsham in loco.

Sylwa Dr. Priestley ar yr adnod fel y canlyn: "Gwir feddwl yr ymadrodd sydd fel y canlyn: '*yr hwn ag efe yn ffurf Duw,*' hyd yn oed mewn ystyr o uwch nag oedd Adda, ni ddarfu iddo ef, fel Adda, amcanu fod fel Duw, ond efe a ddarostyngodd ei hun. Fod yr

Apostol yma yn cyfeirio at gyflwr Adda, sydd debygol iawn, oddiwrth ei waith yn dywedyd yma ei fod yn ffurf Duw, a'i fod yn dymuno bod fel Duw, ac y mae ef mewn man arall (1 Cor. 15, 45, 47.) yn galw Crist, *yr Adda diweddaf*, fel pe tai, y cyntaf, o rywogaeth newydd o ddynion, a phen y greadigaeth newydd." Priestley in loco.

Yr esboniad canlynol a gefais gan fy nghyfaill parchus a dysgedig Mr. James o'r Gellionnen.

"Yr hwn ag efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais &c."—"Ni thybiodd dduwioldeb yn *egwyddor dreisiol*, sef tynnu'r byd hwn atto ei hun, eithr efe a waghâodd ei hun, neu a daflodd y byd hwn oddiwrtho." Neu mewn geiriau byrr, "nid cybydd-dod yw duwioldeb." Y mae'r esboniad hwn yn ymddibynu ar yr ystyr a roddir i'r gair Groeg *harpagmon*, sef *egwyddor* dreisiol, ac mai duwioldeb sydd i ddeall wrth yr ymadrodd, *to einai isa theō*. Am yr olaf y mae yn sicr y gall y Groeg arwyddoccau hyn; ac am y blaenaf, *harpagmon*, nid wyf yn alluog i ddywedyd dim yn benderfynol yn ei gylch. Ond os *egwyddor* dreisiol yw gwir arwyddaccâd harpagmon, y mae'r meddwl yn nerthol a goleu iawn, yn berffaith gysson ag amcan yr Apostol yn ysgrifenu at y Philippiaid, yn hollol gysson ag athrawiaeth ac ymddygiad Crist.

Yn gysson ag amcan yr Apostol. Ei amcan yw dysgu gostyngeiddrwydd i'r Philippiaid; y mae yn eu cynghori i beidio edrych ar eu HEIDDO *eu hunain*, eithr pob un ar yr EIDDO eraill hefyd; ac i'r diben i wneuthur ei gynghor yn awdurdodol y mae yn gosod o'u blaen beth oedd barn Crist ar y pwngc, yr hwn ag efe yn ffurf Duw, ni thybiodd mai egwyddor dreisiol oedd y cyffelybrwydd, y ffurf Duw, y *to einai isa theō*, yma, *eithr* efe a waghâodd ei hun, ni edrychodd ar ei *eiddo* ei hun, nid esmwythder a chyfoeth bydol oedd ganddo mewn golwg; ïe, mor belled oedd o edrych ar ei *eiddo* ei hun, fel y cymmerodd ei drin fel caethwas, ac y bu farw farwolaeth wradwyddus caethweision, er mwyn eraill, gan edrych ar yr EIDDO ERAILL ac nid ei EIDDO EI HUN.

Y nesaf at yr esboniad ūchod ydyw eiddo Slichtingius yn ol fy marn i. Sef na ddarfu i'r Iesu criocd dybied mai *harpagmon*, ysbail er ei fwyn ei hun, i'w gadw yn gyndyn, oedd y *to einai isa theō*, y gallu gwyrthiol a ymddiriedwyd iddo, ond mai rhodd Duw oeddent er lles eraill, i'w harfer yn ol ewyllys Duw, a'u rhoddi yn ol pan y byddai ef yn gofyn hynny er mwyn dedwyddwch y teulu dynol, er gorfod marw o Grist, mewn canlyniad. Y mae yn ymddangos i mi fod yr *antithesis*, cyferbyniaeth, yn cael ei gadw yn gadarn iawn gan Slichtingius. Efallai y gwel Mr. James fod yn dda i roddi gair ar yr *antithesis* yma yn ol ei esboniad ef. Nid o ran nad wyf yn canfod *antithesis* ganddo, ond oherwydd fy mod am i'r gyferbyniaeth ymddangos yn y dull cryfaf. Efe ei hun yn unig sydd alluog i hyn. Os na wnaiff gydsynio a'm cais, y mae gennyf lawer o ddiolch iddo am y gefais.

SCRUTATOR.

RHIFYDDEG.

Gweithred feddyliol ydyw cyfrif, a byddai yn bwngc llawn o ddyddordeb i ymchwilio o'r dechreu, ac olrhain o gam i gam, y modd y cyrhaeddodd dyn ei uchafiaeth presenol yn y gelfyddyd. Gallwn ni yn hawdd ddysgu i'n plant ddweyd un, dau, tri, &c., a hwythau adrodd yn daclus ar ein hol; ond nid felly y mae gyda dyn yn ei gyflwr anwaraidd. Nid yw efe yn gallu trin rhifynau fel pethau gwahanredol (*abstract*) oddi wrth wrthddrychau allanol; rhaid iddo yn gyntaf ganfod tebygolrwydd o ran lliw neu lun, neu ryw berthynas arall rhwng dau neu fwy o wrthddrychau naturiol, eu gosod mewn dosbarth, ac yna eu rhifo—gwrthddrych un, gwrthddrych dau, &c. Y mae ymdrech meddwl nid bychan yn ofynol i wahanu y rhifynau oddi wrth eu gwrthddrychau priod, a'u trin yn anymddi-

bynol, neu ar eu pennau eu hunain. Felly darllenwn am rai o'r Indiaid Americanaidd—na fedrant rifo ddim pellach na thri; medr eraill gyrhaedd deg; a rhyw ychydig cyn belled ag ugain; ond pan ewyllysiant wneud yn hysbys rifyn mwy, cyfeiriant at wallt eu pennau, gan arwyddoccâu wrth hynny bod y rhif yn fwy nâg y gellir ei adrodd.

Tybir ddarfod i ddynion gyfrif yn gyntaf fesur dau a dau; ond braidd na ddywedem mai tri ydoedd graddor rhifyddol cyntaf y Cymry. Oblegid, i beidio a son am y "Trioedd," ym mha rai y trosglwyddid, nid yn unig eu cynghorion moesol, ond hefyd eu holl wybodaeth hanesyddol; gwelir hyn yn fwy amlwg yn y dull cyffredin o rifo cant, megis o afalau, &c. sef chwe ugain, neu *dri* ym mhob llaw ugain waith; felly hefyd o dri y cawn naw,—*deunaw*, yr un modd ag o ddeg, ugain, *deugain*.

Ond fesur ychydig daethpwyd i rifo wrth fysedd y dwylaw: ar y cyntaf ymddengys na ddefnyddid ond un law yn unig, a dywedir wrthym gan rai a ymchwiliant i elfenau gwreiddiol y geiriau am y rhifoedd o bump i ddeg, eu bod mewn rhai ieithoedd yn gyfansoddedig o'r mân rifau, megis tri a thri am chwech, (Donald. New Cratyl. p. 195): ond gwneir y peth yn fwy amlwg i'r Cymro uniaith trwy iddo sylwi ein bod ni ar ol cyrhaedd pymtheg—tri phump, yn lle myned ymlaen gyda'r ail law, yn ail ddechreu *un ar bymtheg*, &c. Cam ymlaen, a cham mawr ydoedd defnyddio y ddwy law i gyfrif; ac felly daeth *deg*—rhif y bysedd—i gael ei ddefnyddio fel y graddor rhifyddol; h. y. cyfrifid at ddeg, yna dechreuid drachefn, unarddeg, deuddeg, &c. hyd ddeg arall, neu ugain, ac felly yn y blaen o ddeg i ddeg. Ond gadawn i'n darllenwyr ieuainge ddilyn y drefn ymhellach drostynt eu hunain; a chynghorem hwy i sylwi yn fanwl fel y mae ein dull o gyfrif yn myned rhagddo fesur degau: nodwn yn unig, er cyfarwyddiad, fod deg ddengwaith yn gwneud cant,—y pen terfyn nesaf; deg cant, neu deg deng dengwaith, sef deg wedi ei adrodd deirgwaith yn gwneud mil,—pen terfyn arall; ac felly at y nesaf, myrddiwn, &c.

Ond wedi ffurfio fel hyn y dull o gyfrif ar dafod-leferydd, teimlwyd angen, fel yr oedd dyn yn cynnyddu mewn gwareiddiad, am argraph nodau neu ffigurau i wneuthur rhifyn yn hysbys wrth ysgrifenu, yr hyn, y mae'n amlwg, sy'n beth hollol wahanol oddi wrth yr hyn yr ydym wedi bod hyd yma yn traethu am dano.

Yn y dechreu arwyddnodid y rhifynau trwy lythyrenau yr egwyddor yn olynol; felly y gwneid yn yr iaith Hebraeg a'r Roeg; ac y mae yn gof gan ein darllenwyr, yn ddiammau, weled y geiriau, Aleph, Beth, Gimel, Daleth, &c. o flaen dosbarthiadau y 119eg Salm yn eu Biblau; enwau llythyrenol yr egwyddor Hebraeg ydynt, yn cyfatteb i A, B, G, D, &c. gyda ni, a gosodir hwy yno i arwyddo y rhifau, un, dau, tri, &c. Ond afreidiol i ni sylwi ar y dull uchod, gan nad yw mewn arferiad, na'r cyffredin o'n darllenwyr yn deall yr ieithoedd hynny.

Y mae y ddull Rhufeinig yn teilyngu mwy o sylw, oblegid ei fod mewn defnyddiad; a chan fod rhai yn cael anhawsder i'w ddeall, ymdrechwn ei egluro:—I arwyddo un, defnyddid llinell syth, I, a dynodid dau trwy ddwy linell o'r fath, 11, a'r un modd tri trwy dair, &c. Pan gyrhaeddid pen y graddor, sef deg, rhoid croes, X, yr un modd ag y gwna mân-farchnattâwyr Cymru dynu llinell ar draws, pan wneir y *score* i fynu. Yna dechreuid drachefn, XI am unarddeg, XII am ddeuddeg, &c. nes y cyrhaeddid y pen eilwaith,—neu ugain, pan y rhoddwyd dwy groes, XX, ac felly am ddeg deirgwaith, neu ddeg ar hugain, XXX, &c. I ddynodi yr ail ben terfyn wrth gyfrif,—neu gant, defnyddid tair llinell yn y dull yma, [, ac arwyddocceid mil trwy bedair llinell cyd-blethedig yn debyg i M, neu weithiau ar wahan, CIↃ. Ond yn lle [am gant, ysgrifenid C, yr hon hefyd yw llythyren gyntaf y gair, *centum* (cant), a'r un modd M, llythyren gyntaf *mille* (mil) am y rhif hwnnw. Yr oedd y talfyriadau hyn yn gryn hwylusdod er cyfrif yn rheolaidd; etto yr oedd y dull yn dra thrwsgl ac anghyfleus, oherwydd bod yn angenrheidiol mynych adrodd yn un nod weithiau cyn amled a naw gwaith. Ceisiwyd gan hynny pa fodd y gellid byrhau yr adroddiadau. Fel hyn dynodwyd pump—hanner deg, trwy hanner X, sef V; yr un modd am hanner cant, ysgrifenid [, yr hwn yn fuan a wnaethpwyd yn L; ac am hanner mil, neu bum cant, cymmerwyd hanner CIↃ sef, IↃ, o'r hyn y tarddodd D. Dychymmygwyd un byrhâd cyfleus ymhellach, trwy roi y mân rifau o flaen y rhai mwyaf i arwyddo lleihâd o gan gymmaint; er enghraifft, yn lle pedair llinell am bedwar, ysgrifenwyd IV, sef namyn un pump; am naw, IX, sef namyn un deg; am ddeugain, XL, sef deg allan o hanner cant; ac am ddeg a phedwar ugain, XC, neu ddeg allan o gant.

Yr ydym yn gobeithio y geill ein darllenwyr, hen ac ieuange, yn awr ddeall yn gyflawn y dull Rhufeinig o rifo: ni raid iddynt ond sylwi ar yr esboniad canlynol:—

Yn lle

Un, saif	I	Ugain	XX
Dau	II	Pump ar hugain	XXV
Tri	III	Deg ar hugain	XXX
Pedwar	IV	Deugain	XL
Pump	V	Deg a deugain	L
Chwech	VI	Triugain	LX
Saith	VII	Deg a thriugain	LXX
Wyth	VIII	Pedwar ugain	LXXX
Naw	IX	Deg a phedwar ugain	XC
Deg	X	Cant	C
Unarddeg	XI	Dau gant	CC
Deuddeg	XII	Pum cant	D
Pymtheg	XV	Mil	M

Mil wyth cant deugain a naw—MDCCCXLIX

Gwelir nad oes dim darpariad yn y drefn yma ar gyfer rhifynau uwchlaw dwy fil, neu y fan bellaf ddeng mil, neu fyrddiwn: ond, heblaw hyn pa mor ddigonol bynnag ydyw y drefn er arddangos unrhyw rif unigol, (i'r hyn yn unig y cyfyngir hi yn awr,) y mae yn hollol anghymwys ar gyfer gweithrediadau mwyaf cyffredin rhifyddeg. A phe parhausai mewn defnyddiad, pe na ddaethid o hyd i un arall mwy manteisiol, y mae yn debyg y buasai cylch ein gwybodaeth, yn yr holl gelfyddydau yn dwyn perthynas â rhif a mesur, heddyw yn dra chyfyng. Er enghraifft, ymdreched ein darllenwyr ieuangc gael, yn ol y drefn yma, atteb i ofyniad mor hawdd a hwn —y cyfanswm o XLVIII, XC, XXXIV. Gwelir ar unwaith nad yw o un fantais gosod y rhifynau y naill dan y llall, fel y gwneir yn awr; ac nis gellid cael dim cymhorth, ond yn hytrach rhwystr oddi wrth y rhifnodau eu hunain, Ac os yw mor anhawdd atteb gofyniad yn y rheol gyntaf o rifyddeg, pa faint mwy felly fyddai yn rheolau mwy dyrus y gelfyddyd, megis Lliosogiaeth (*multiplication*), neu Ddosraniaeth rhifynau (*division*). Yr oedd gan y Rhufeiniaid yn wir fath o ddyfais gelfyddydol i rwyddhau cyfrifon; ond yr oedd y gwaith mor flin ac anhylaw, fel y gadawent ef yn gyffredin i gaethweision, a'r sawl a ddilynent y gelfyddyd fel crefft.

Y mae "doethineb yr Aipht" yn oesoedd boreuol y byd yn ddihareb: ac ymddengys mai i'r eisteddle honno o ddysg a gwybodaeth yr ydym yn ddyledus am y rhifnodau sy gennym yn awr mewn defnyddiad,—1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 0; ond myn rhai eu priodoli yn hytrach i'r Persiaid neu'r Hindwiaid. Daethant i Ewrop trwy ddwylaw yr Arabiaid yn y ddegfed ganrif, pan y bu i'r *Moors* oresgyn Yspaen, a'i meddiannu; ac felly gelwir hwy yn fynych y rhif-nodau Arabaidd, er eu gwahaniaethu oddi wrth y rhif-nodau Rhufeiniaidd. Mynach o'r enw Giobert, yr hwn ar ol hynny a wnaethpwyd yn Bab, ydoedd y cyntaf i'w gwneud yn hysbys i Ewrop Gristionogol; teithiodd ym more ei ddyddiau i Yspaen, a dysgodd hwy oddi wrth y Moors. Ond yr oedd yr oes mor dywyll, fel na ddaethant i ddefnyddiad cyffredinol nes oddeutu amser darganfyddiad y gelfyddyd o argraphu yn y bymthegfed ganrif. Am y modd y gellir hysbysu yn rheolaidd trwy y rhif-nodau hyn pa nifer bynnag a fynnir, a'r manteision annrhaethol yn deilliaw oddi wrth hynny, ni chawn ddywedyd yn awr. Efallai y dychwelwn at y pwngc etto.

Cymro.—Gwel Chambers' Edin. Journal vol. iv. p. 314.

HANESION CARTREFOL A THRAMOR.

Nid yw yn newydd yn y byd, fel mae gwaetha'r modd, bod masnach o bob mâth trwy'r wlad, yn llesg anghyffredin; heb nemmawr arwyddion adfywiad. Nis gwyddom beth i ddywedyd yn iawn am derfysgoedd a rhyfeloedd y Cyfandir, na pha bryd y darfyddant; ond nid oes le i ammeu, mai un o'u heffeithiau drwg yw y wasgfa sydd yn awr mor gyffredinol ar weithwyr ac amaethwyr Prydain Fawr. Tebyg ddigon mai drygau anocheladwy ydynt yn amgylchiadau presennol Ewrop, ac y byddant yn foddion, fel yr hyderwn yn nhrefn ryfedd Rhagluniaeth, i symmud gormes a drwg-lywodraeth o'r byd; a thrwy hyny i adferu tawelwch a llwyddiant parhâus. Y mae eisieu dysgu dynion, llywodraethwyr a deiliaid, mai *drwg* yw rhyfel a thywallt gwaed, ac na wnaiff y *physical force system* mo'r tro yn y pen draw. Ychydig wrandewir ar y "lêf ddystaw fain" ynmysg bloeddiadau a therfysgoedd y werin a magnelau taranllyd eu gormeswyr.

Ymfudwyr Cymreig.—Dydd Mawrth, Mai yr 8fed. cychwynodd y llong *Jamestown* ar ei mordaith o Liverpool i New York, ar fwrdd yr hon yr oedd oddeutu tri chant o Gymry, o wahanol barthau y Dywysogaeth. Ni welwyd, odid, gynifer o'n cyd-genedl yn ymfudo yn yr un llong o'r blaen o borthladd Liverpool. Yr oedd miloedd o Gymry ar y *pierhead* yn edrych arnynt yn cychwyn, ymhlith pa rai yr oedd llawer o berthynasau a chyfeillion yr ymfudwyr. Pan yn ymadael o'r *dock* i'r afon, yr oedd nifer o honynt yn canu yn hyfryd yr hen dôn Gymreig "Hiraeth Cymro am ei Wlad," ar y pennill, "O Dduw rho i'm dy hedd." Diau fod ocheneidiau dwys yn derchafu o fynwesau cannoedd o'r edrychwyr, wrth eu gweled yn cychwyn, am i'r "Hwn sydd yn llywodraethu ymchwydd y môr pan y rhuo ei dònau, ac yn dàl y gwynt yn ei ddyrnau," fod yn eu cysgodi a'i aden dirion a'u dwyn yn ddiogel i ben eu taith.

Blin genym hysbysu fod yn mhlith y rhai a ymadawsant, un cyfaill gwresog i'r *Ymofynydd*, a gohebydd ffyddlon a charedig—Mr. Joseph Williams, gynt o Swydd Callestr, diweddar o Liverpool. Mewn llythyr a ysgrifenodd attom pan oedd efe a'i deulu ar gychwyn, dywedai "ei fod yn anhawdd iawn ymadael â thir ei Wlad," ac addawodd y cawn glywed am ei helynt &c. wedi iddo lànio yn America.

Y SENEDD

YnNhy'r Arglwyddi safodd y Whigs yn lled rymus dros ddilëad y Cyfreithiau Mordwyol, yn wyneb grym mawr o wrthwynebiad. Meddyliodd y *Tories* yn sicr y gallasent gael y llaw drecha arnynt. Dan dywysiad Stanley a Brougham gwnaethant eu hegni yn erbyn ail ddarlleniad rheithsgrif dilëad y deddfau hyny, ond methasant yn yr amcan; cariwyd y darlleniad gyda y mwyrif o *ddeg*.

Ymddengys hefyd fod y llywodraeth am drefnu rhyw fesurau o werth er ymwared i'r lwerddon o'r diwedd; ac y mae yn llawn bryd bellach.

Yn Nhy'r Cyffredin, mae y cynnygiad newydd a wnaed er galluogi *Iuddewon* i eistedd yn y Senedd, hyd yma wedi myned ymlaen yn bur hwylus.

Llofruddiaethau Echryslawn, a Hunan-laddiad y Llofrudd.

Dydd Mawrth y 1af. o Fai, yn mhlwyf Llanwenog, Sir Aberteifi, darfu i un Thomas Davies. Cefnrhyddlan-issa, lofruddio ei wraig a'i blentyn, ac wedi hyny ei ladd ei hun trwy dorri ei wddf. Ymddengys fod y Llofrudd wedi bod yn byw ar delerau anghysurus iawn gyda'i wraig, yn codi oddiar ryw amheuaeth yn ei ffyddlondeb, 'yr hyn meddir oedd heb sail iddo. Ymddengys hefyd fod y drwg dyb hwn yn cael ei deimlo gan y wraig tuag atto yntau, y chydag ymddangosiad mwy o reswm a chyfiawnder. Yn ychwanegol at hyn, meddylid nad oedd y dyn anhappus o gwbl mewn meddiant o'i synwyrau; a chlywid ef yn fynych yn dyweyd nad ei blentyn ef oedd yr hwn a lofruddiodd mor farbaraidd. Y mae yn rhy boenus i wneud adroddiad manwl o'r amgylchiad echryslawn. Pan oedd ynghylch cyflawni y weithred,er mwyn cael gwared o bob tystion, fel y tybiai, anfonasai ddau o'i blant i efail gôf ychydig oddiyno, ar ryw esgus o neges. Wedi archolli ei wraig yn y modd mwyaf creulon a dychrynllyd gyda'r ellyn, a lladd ei blentyn ddim ond tri mis oed, yr un modd, gadawodd y tŷ ac aeth i geisio boddi yn afon Teifi, Wedi methu rhyw fodd a gwneud terfyn ar ei fywyd y modd hyny, cymerodd yr ellyn a ddefnyddiodd mor effeithiol o'r blaen, a thorrodd ei wddf ei hun, a thorrodd archollion niferog ar rànau eraill o'i gorff. Cafwyd ef ar lan yr afon mewn cyflwr yn marw. Symmudwyd ef i'r ysgybor lle y bu farw mewn ychydig amser wedi hyny. Cyfaddefodd wrth yr hedd-geidwad iddo gyflawni y cyflafanau erchyll. Bu farw oddeutu un ar-ddeg nos Fawrth. Yr oedd yn ei 45ain. flwydd,

Wrth glywed llefain y wraig druan daeth y cymydogion i'w chymhorth, a chafwyd meddyg atti, ond y cwbl i ddim diben, gan iddi nychu mewn dirboen mawr hyd foreu dydd Mercher, pan y rhoddodd angeu ddiwedd ar ei phoenau. Yr oedd yn ei 40fed. flwydd. Yr oeddent wedi bod yn briod ddeunaw mlynedd; ac y mae pedwar o blant ar eu hôl.

Dydd Iau canlynol cynnaliwyd rheith-holiad (inquest) ar y cyrff, pan y cyttunwyd yn unfrydol ddarfod i T. Davies gyflawni y gweithredoedd arswydus mewn cyrch o wallgofrwydd amserol *(temporary insanity)*.

SAETHU AT Y FRENHINES.

Dydd Sadwrn, y 19eg o Fai, fel yr oedd y Frenhines yn dychwelyd o *Hyde Park* tua'i Phalas, a chydà bod y cerbyd wedi passio godre Constitution-hill, darfu i ryw Wyddel ynfyd o'r enw Hamilton yr hwn oedd ymhlith yr edrychwyr, saethu at ei mawrhydi. Parodd hyn dros ennyd gyffro a braw anghyffredin trwy y dyrfa luosog o edrychwyr a thrwy 'r gymydogaeth. Yn y fan cyfododd y Frenhines i fynu yn ei cherbyd, i ddangos nad oedd wedi cael un niwed. Ac erbyn edrych nid oedd un lle iddi gael niwed oddiwrth y weithred ynfyd—dim ond ei brawychu. Cafwyd nad oedd y *pistol* wedi ei *loadio* ond â phowdr yn unig. Daliwyd y dyn yn y fan, ac y mae yn awr yn ngharchar.

CYFANDIR EWROP.

RHUFAIN.

Y mae llygaid pawb yn awr ar Rufain. Ymddengys fel pe byddai ysbryd a nerth yr hen Rufeiniaid wedi disgyn ar benaethiaid y ddinas a'i phobl yn bresenol; neu fod y gwroniaid fu'n sefydlu y ddinas nerthol gynt, wedi cyfodi o'u beddau i'w hadsefydlu yn ei gogoniant cyntefig. Bu yn crynu dau iau galed y lywodraeth wladol ag eglwysig fwyaf gorthrymus ac annioddefol a halogodd y ddaear erioed, am ysbaid hirfaith o fwy na mil o flynyddoedd. O'r diwedd taflodd ymaith yr iau. Diorseddwyd y Pab, ymlidiwyd ef ymaith, dymchwelwyd ei lywodraeth, gyrrwyd ei Gardinaliaid oll ar ffo, torrwyd cloion llys yr *Inquisition*, gollyngwyd y carcharorion yn rhyddion; cyhoeddwyd rhyddid y wasg, a rhyddid i addoli yn ôl llais cydwybod. Ar ôl ymgynulliad a phenderfyniad gwladwriaethol, cyhoeddodd Rhufain ei hun yn werin-lywodraeth ar goedd Ewrop. Ac yn awr dyma y gwahanol lywodraethau Catholig, fel eu gelwir, a Ffrainge gydâ hwy (rhag ei chywilydd!) yn cyttuno trwy rym arfau i adferu y Pab i'w lywodraeth o anfodd y Rhufeiniaid.

Anfonwyd byddin fawr o Ffrainge dan dywysiad Oudinot, yr hon a gyrhaeddodd Civita Vecchia. ar y 26ain o Ebrill. Ymhen ychy

dig ddyddiau aethpwyd yn hyderus i gymeryd meddiant o Rufain, fel y tybient. Ond cawsant eu curo yn ôl, gyda cholled drom: ail ymosodent, a chawsant gurfa galettach drachefn. Lladdwyd rhai cannoedd o'r Ffrangcod a chymerwyd rhai cannoedd yn garcharorion, y rhai a driniwyd yn dyner gan y Rhufeiniaid, ac wedi'n a ollyngwyd i ffordd. Yr oedd yr holl ddinasyddion fel o un galon ac un ysbryd.

Dywedir fod brenin Naples, yn prysuro tua Rhufain gyda deuddeng mil o wyr, ac heb fod yn neppell oddiwrthi, pan gafodd y newydd syn ac annisgwyliadwy, fod y Ffrangcod wedi gorfod cymeryd at y traed. Disgwyliasai y buasai yn eu cael mewn cwbl feddiant o'r ddinas; tarawyd ef gan hurtrwydd fel na wyddai beth i'w wneuthur. Y newydd nesaf a gafodd oedd, fod gwyr Rhufain yn barod i droi ailan i ymosod arno ef a'i fyddin.

Mai y 5fed darfu i'r Rhufeiniaid dan lywyddiad Garibaldi, ymosod ar fyddin o 2000 o'r Neapolitaniaid, yn Torre di Meza Via, rhwng Rhufain ac Albano. Y Neapolitanaid, wedi brwydr fer, a daflasant eu harfau ac a ffoisant: a chymerodd y Rhufeiniaid driugain o garcharorion a dau fagnel mawr, gyda pha rai yr aethant i fewn i Rufain yn yr hwyr. Y mae'r newydd fod y Neapolitaniaid wedi cael eu gwaethu mewn brwydr arall drachefn. Y mae yr Awstriaid wedi cymeryd Leghorn, ac yn gwarchae ar Bologna. Ond pa le mae'r fyddin Ffrengig? Y mae yn Paulo o fewn ychydig o filldiroedd i Rufain. Anhawdd dychymyg pa beth mae'r Ffrangcod ar fedr gwneuthur; ond gellir casglu oddiwrth lythyr a anfonodd Gen. Oudinot i Paris, dyddiedig, Paulo Mai yr 8fed.—mai nid adferu y Pab yw y peth pennaf sydd ganddynt mewn golwg—ac eu bod yn disgwyl y bydd i'r Rhufeiniaid eu hunain i'w galw i mewn i heddychu rhyngddynt a'u gelynion.

FFRAINGC

Y mae'r etholiadau wedi myned drosodd yn bur dawel: yn gyffredin, y maent wedi myned yn erbyn ymgeiswyr y llywodraeth. Cafwyd fod plaid y *Socialists* yn fwy lluosog yn y fyddin nag oeddid yn tybied. Dywedir fod y Llywydd yn teimlo yn gryn anesmwyth a phryderus, ac ei fod ar fedr newid ei weinyddiaeth yn gyfattebol i'r amlygiad a gafwyd o lais y wlad yn yr etholiadau sydd wedi cymeryd lle.

AWSTRIA A HUNGARY

Ymddengys fod Ymerodraeth Awstria fel pe bai ar falurio; a bod y frwydr fawr rhwng Gwerin-lywodraeth a Gormesdeyrn, ar gymeryd lle yn nghanolbarth Ewrop—ar faesydd Hungary. Rhag-ddywedodd Napoleon, mae'n debyg, yn Saint Helena, mai naill ai *republican* neu cossack, fyddai Ewrop o fewn 50 mlynedd. Y mae Awstria, wedi iddi fethu darostwng ei deiliaid, y Magyars, y rhai a ymdrechent yn lew dros annibyniaeth eu gwlad, ac yn analluog bellach i sefyll ei thir yn eu herbyn, wedi gorfod galw y Rwssiaid i mewn i'w chynhorthwyo. O'r tu arall, ar gynnygiad Kossuth, y gwr a arweiniodd ei gydwladwyr o fuddugoliaeth i fuddugoliaeth, ac a ddarostyngodd falchder Windischgrätz a Jellachich, y mae y Senedd Hungaraidd, gyda brydaniaeth ac unfrydedd, wedi penderfynu, na chaiff teulu *Hapsburg Lorraine* ddim hwyach lywodraethu arnynt; a bod Hungary i fod yn wlad rydd ac annibynol. Gyda'r un unfrydedd dewiswyd Kossuth yn Llywydd (President) y genedl Magyar.

Y mae llengoedd Rwssia yn ymdywallt wrth fesur yr ugeiniau o filoedd, i Hungary, a thiriogaethau Awstria, i sathru, os gallant, yr Hungariaid i'r llawr; yr hyn byddem yn barod i ddyweyd, y gwnaent; oni bai fod medrusrwydd a gwrolder yr Hungariaid eisioes wedi troi i maes gymaint tu hwnt i ddisgwyliadau pawb.

GERMANY

Nid yw cyflwr Germany nemmawr mwy boddhäol: ond y mae yn llawn o beygl i dawelwch yn Ewrop, yn awr a thros amser etto. Bydd dyfodiad y Rwssiaid i lethu annibyniaeth Hungary, ond odid, i ddwyn y peth i aeddfedrwydd ryw faint yn gynt—feallai, yn rhy gynnar er lles rhyddid. Y mae awydd y bobl i gael undeb cenedlaethol wedi cynhyddu yn fawr yn ddiweddar, er fod brenhinoedd Rwssia, Awstria, Saxony, &c., wedi dangos o'r diwedd eu gwrthwynebiad iddo, a gwrthod y *Constitution* a gyttunwyd arno gan y Senedd Undebawl yn Frankfort. Nid yn rhwydd bellach y cedwir pobl Germany dan draed. Bydd y fuddugoliaeth gyntaf a gaffo y Rwssiaid ar yr Hungariaid yn debyg o greu terfysg cyffredinol trwy'r taleithiau oll. Y mae wedi dechreu eisioes yn Saxony, Wurtemburg, a glan y Rhine. Ychydig o amser a ddengys pa un ai bydd i bobl Germany gyrhaeddyd eu dymuniad, neu ddychwelyd i'r cyflwr oeddent ynddo cyn i'r Chwyldröad Ffrengig dorri allan yn Chwefror 1848. Hysbysa y newyddion diweddaraf fod Awstria a Phrwssia, wedi dodi eu penau ynghŷd; ac eu bod yn awr yn cyttuno i dderbyn y *Constitution* gyda rhai cyfnewidiadau.

TERFYSG YN CANADA,

YN AMERICA OGLEDDOL.

Daeth y newydd gyda'r llong *Europa*, am

derfysg budr yn Montreal, yn Canada Uchaf.

Dydd Mercher, Ebrill 25. aeth y Llywydd Cyffredin i'r Senedd i'r diben i roddi y gymeradwyaeth frenhinol i amryw ysgrifau a besid gan y Senedd ac yn eu mysg i un a elwid gan y blaid Seisoneg, y rhai oeddynt bob amser yr amddiffynwyr mwyaf egniol i'r awdurdod brenhinol, "yr ysgrif i dalu i'r gwrthryfelwyr," sef ysgrif i ddigolledu y rhai o drigolion Canada Isaf a gawsent eu colledu yn y gwrthryfel yn 1837 ac 1838. Y foment y darllenodd ysgrifenydd y Tŷ enw yr ysgrif hon, fel wedi derbyn y sêl frenhinol torrodd allan yr arwyddion uchaf o anghymeradwyaeth yn mysg yr edrychwyr yn y *gallery*, trwy bob màth o oernadau a lleisiau aflafar, ac yn y fan aethant allan i'r heolydd i gyhoeddi y newydd annerbyniol. Y canlyniad fu i gynnrychiolydd ei Mawrhydi (y Llywydd) gael ei anmharchu, i'r aelodau Seneddol gael eu chwalu trwy gynddaredd y werin, a rhoddi y Senedd-dŷ ar dân: ac ymhen ychydig oriau yr oedd wedi llosgi i lawr yn llwyr, ynghŷd a'r holl ysgrifeniadau perthynol i'r drefedigaeth a'r llyfrgell ëang: safai y *police* a'r milwyr yn syn, heb ymyraeth dim er ceisio attal y dinystr. Ymddengys fod dinas Montreal wedi ei rhoddi i fynu i lywodraeth y terfysgwyr, yn mysg pa rai mae rhai o'i phrif ddinaswyr. Y mae Canada Uchaf, yr hon sydd oll yn Frytanaidd, gan mwyaf yn Saeson ac Ysgotiaid, yn cyfranogi yn gwbl yn nheimladau dinaswyr Montreal—tra y mae poblogaeth Canada Isaf, bron i gŷd o gyff Ffrengig, yn arfogi i gynnal awdurdod, mawrhydi ac urddas y goron Frytanaidd, yn erbyn ei deiliaid Brytanaidd.

Gwir mai ar ran y Ffrengwyr y pasiwyd y ddeddf ag sydd wedi achosi y cynhyrfiadau hyn. Anfonir deisebion at y llywodraeth i Loegr, yn erfyn ar ei Mawrhydi am alw Arglwydd Elgin, y Llywydd, gartref: a llosgir ef yn ei ddelw yn Montreal, Torent, Kingston, a manau eraill. Bydd hyn yn rheswm adnewyddol dros gadw i fynu ein byddinoedd a'n llynges, os nad i ychwanegu at ein beichiau trymion.

CWYN YR ALLTUD.

Mr. Golygydd,—Gan fy mod yn ddarllenydd cyson eich *Ymofynydd* parchus, ac yn canfod teimladau duwiol ac ysbryd efengylaidd yn ei fritho oll, ystyriwn yn fraint pe y caniatëich i mi trwy ei gyfrwng osod fy nghwyn ger bron y cyhoedd. Pan y'm argyhoeddwyd o deilyngdod yr Efengyl o'r parch blaenaf yn fy meddwl, ynghŷd a'r lles tragwyddol sydd mewn cysylltiad â byw dan lywodraeth ei hegwyddorion, ystyriais yn ddyledswydd arnaf i ymroddi fy hun yn aelod o Eglwys Crist; oblegid mai ysgol gan Dduw i ddysgu yr anwybodus yw ei Eglwys. Unais â'r blaid a gyfenwant eu hunain yn Drindodiaid; nis gwaeth pa enwad. Cefais air da gan y rhai a ystyrient eu hunain yn famogiaid, hyd nes aethum i ymofyn mewn rhifyddiaeth yn ei chyflëad at athrawiaeth y Drindod. Methais a chanfod bod *un* yn *dri*, a *thri* yn *un*, fel dywed rhifyddiaeth y dirgelwch. Ond haerais fod *tri, ddau yn fwy nag un.* A c o herwydd hyny cyfododd terfysg yn yr Eglwys. Cyhoeddwyd fi yn euog o hereticiaeth, unwyd o unfrŷd i'm attal o cymmundeb, a thraddodwyd fi i faes y byd, am fy mod i'w tŷb hwy yn cyfeiliorni mewn barn. Hònent hefyd eu bod yn aroglu sawr anffyddiaeth arnaf, a throent sylw o byd arnaf, gan gyngori pawb na chyfeillachent â myfi, oblegid, diau, meddent, fy mod wedi'm rhoddi i fynu i "amryfusedd cadarn, &c."

O ganlyniad ni chaniatëir i mi nâ phrynu na gwerthu mewn ystyr foesol ac ysbrydol. A'r unig reswm dros fy nghaethiwo mor galed ydyw, am nas derbyniaf nod y bwystfil yn fy nhalcen.

Fy amcan yn gwneud fy nghwyn fel yma yn gyhoeddus ydyw, fel y byddo i ryw rai o'ch Gohebwyr deallus fod mor garedig â gwneuthur sylwadau ar Natur a dyben dysgyblaeth Eglwysig. Beth debygwch chwi, Syr? Ydyw yr ymddygiad uchod yn deilwng o'r Efengyl ai nid yw?

Ydwyf &c.,

"Lleng, am fod llawer o honom."

Ebrill 14*eg*, 1849.

CYFARFOD BLYNYDDOL UNDODIAID Y DEHEUBARTH.

Bydd y Cwrdd Blynyddol i gael ei gynnal yn y Gelli-onnen ar y 27ain a'r 28ain o Fehefin, yn lle'r 20fed a'r 21ain,—o herwydd amgylchiadau cymmydogaethol neillduol.

Bydd y gwasanaeth i ddechreu am 3 o'r gloch prydnawn y 27ain.

J. J.

AMRYWIAETHAU.

DAMMEG Y TWRCH AR GOG.

Twrch yn ymloi'n y llaid budr a glybu Gog ar frigyn uchaf y berllan yn canu ar awr anterth tesog ym Mai, a chan ddangos ei drwyn trwylledig iddo, ebe fe, rhyfedd gennyf y drafferth a gymmeraist i ddringo cuwch i ganu gwccw mor ddiflin ag yr ydwyd, lle nid oes neb a ry'r ffado fechan am dy gaingc a lle nid oes itti les yn y byd o honi, nid felly y mae, ebe'r Gog, yr wyf fi yn canu gan lawenydd dyfod haf a thes claerwyn, ac yn ymwynfydu yn fy nghan ai hachos, ac nid oes namyn tydi a'th fath yn y byd o fyw a bywydol nad yw yn llawen ganthynt fy nghlywed yn datgan iddynt goelfain newyddion da ddyfod hir-

ddydd haf a hinon, da gan bawb fy ngweled am clywed, hen gyfaill cariadlais wyf iddynt ac nim niweidiant na dyn, nag un rheipus yn y byd nac o adar na milod a wyper am danynt onid tydi pei bai yn dyallu, lle nid oes it, er gwynfyd immi, na gallu na deall i wneuthur i mi ddrygder, eithr tydi, yn ymloi'n dy fudreddi, nid hoff gan neb, cas gan bob llygad yr olwg arnad, drwg a wnai di ymhob man lle bythot, newydd drwg yw dy fod ti yn unman ba bynnag, ag oni bai am y trwyll a ddoded yn dy drwyn, diwreiddio a difethu'r cyfan o'th amgylch a wneit, eithr yn ol itti ymdewychu dy ddognedd ar a ffieiddia bob byw arall, ti a leddir am dy frasder, lle ni chais neb fy lladd i, ond gwaefiaint na bai'n hwy fy nyddiau, ag nid oes les i neb o honot ti oni dderfydd am danat.

Ag yn ail i'r twrch am y Gog y gwed y Cybydd am bob hael gwybodaethgar, yr hwn a wna les a diddanwch i bob rhywiog ei anian, lle nid oes ond afles i bawb or cybydd tra fo byw, cans drygu pob byw a bod a wna efe er cynnull golud ac ynddynt yr ymfudredda, ac nid ymattalia oni bai fod cyfraith a chosp yn ei luddias yn ail i'r trwyll yn nhrwyn y twrch. pan bo marw y cybydd ac nid cynt y cair lles o hono, yn ail i'r Twrch ai fola tew. ni chydfydd hael ag anhael, ag, nid unnaws gwyraws a gwern. ag. ni chlyw'r llwynog ei ddrygsawr ei hunan. nid drewdod yn nhrwyn twrch ei fudreddi. nid cynghais Cybydd ag Anghawr, mwy na'r Twrch yn y budredd a'r gog ganiadgar. ar y gangen.

Dammegion Cattwg Ddoeth.—Iolo MS. tud. 157.

Aberdâr, Mai 11eg, 1849.

SYR,—Dichon y car llawer o'ch darllenwyr weled yr Englyn canlynol yn yr *Ymofynydd.* Os bernwch yr un peth, byddaf diolchgar am ei le.

Ydwyf &c.,
J. JONES.

Pan yr ydoedd y Parchedig, a'r dysgedig David Davis, gynt o Gastell Hywel, Llandyssul, Ceredigion; yn pregethu yn—digwyddodd i hên wraig ddyfod ar ei ffyn-baglau i'w wrandaw, ac a eisteddodd ar bwys y drws. Bob tro y delai *Ci* heibio, codai yr hen bererin y ffon a'i dwylaw, a tharawai ef a'r ei fain gefn, nes byddai gwawch y *ci* curedig yn rhwystro neb i sylwi, na gwrandaw ar y pregethwr yn traethu gair y bywyd. Wrth fyned i giniaw, gan gofio bod llefau y cwn yn amlach nag Amenau ei wrandawyr, dywedodd y Bardd:

Gwenllian, un lân lon,—ô'd â i'r nef,
Dyrna'r angylion;
I uffern, os ar ddwyffon,
Diawl a ffy, o deil ei ffon.

MARWOLAETHAU.

Damwain alarus.—Fel yr oedd John mab Dafydd Evan o'r Cwmbach, Aberdâr; yn hwppo dram tua'r pwll-glo yn Aberaman ar yr 16eg. o Chwefror, cafodd ei daflu o dan ddram yn llawn o gerrig oedd ar y ffordd a gydredai a'r un oedd ef arni, ac aeth yr olwyn dros ei ben a llethodd ef yn y fan, fel y bu farw heb un ochenaid. J. J.

Ar ddydd Gwener, yr 20ed o Ebrill diweddaf, yn 68 mlwydd oed, bu farw Mrs. Mari Jenkins, gwraig i Mr. Evan Jenkins; Amaethwr cyfrifol, o'r Ton, gerllaw Eglwys Ystrad Dyfodwg, Morganwg. Yr oedd yr hen oedranwraig hon, gallaf dystio, yn wrthrych teilwng o barch ac anrhydedd ei holl gymydogion: tawel hefyd ydoedd a phrydferth yn mhlith ei theulu: ac yr oedd ei chymeriad yn barchus gyda phawb a'i hadwaenai.

Ar y dydd Llun canlynol hebryngwyd ei gweddillion marwol, gan dyrfa liosog o berthynasau a chyfeillion i'w rhoddi i orwedd yn mynwent Eglwys Plwyf Penderyn, Mrycheiniog. Gadawodd weddw ynghŷd a chwech o blant (heblaw ceraint a pherthynasau) i alaru eu colled.

W. W.

BARDDONIAETH.

LLINELLAU AR AGORIAD
Y
RHOL-FORTHWYLFA (Rolling Mill), NEWYDD YN NHREDEGAR.

Dewch feirdd a cherddorion, dyhidlwch eich odlau:—
Derchefwch orhoian—Pwy all fod yn fud?
Ar frig yr awelon, aed swn eich caniadau,
O gwmwd i gwmwd, dros wledydd y byd.

Derchefwch orhoian:—mae'n bryd gorfoleddu:—
Llais cân a llawenydd, sy'n lloni pob lle;
Tangnefedd a chariad sy'n awr yn teyrnasu:—
Mae natur yn gwenu, a phob peth o dde'.

Dewch ddewrfeib Siluria—derchefwch eich penau,
Dydd mawr eich gorfoledd, o'r diwedd, a ddaeth;
Darfydded pob galar—na chlywer cwynfanau,
O fynwes un gweithiwr, mewn cyni nac aeth.

Darfydded pob ceintach rhwng meistyr a gweithiwr:—
Gwir anian gyfeillgar a lanw bob bron:

Boed didwyll hynawsedd, ac ysbryd dyngarwr,
I'r uchel a'r isel, yn darian a ffon.

Rhaid brysio, rhaid brysio, rhag siomi 'ch dysgwyliad:
Mae'n bryd imi feddwl am destun fy nghan;
A thestun fy mhryddest yw'r hynod adeilad
Sy 'nawr yn Nhredegar, mor glodwych a glân.

Yn mhlith rhyfeddodau dihafal Gwent enwog,
Fath ryfedd gampuswaith ni welwyd erio'd;
Mae'n brydferth, mae'n gadarn, mae oll yn fawreddog,—
Mae'n arddrych gorchestawl, rhyglyddawl o glod.

Ha! dyma forthwylfa fydd byth yn rhyfeddod,
I fyrdd o beirianwyr campusaf y byd,
Ddyseiliwyd gan HOMFRAY ein HIFOR uchelglod,
Anwylddyn Tredegar, a'i chyfoeth i gyd.

Hir einioes ac iechyd i'n penial hael-galon,
I fod yn ddiffynwr a noddwr i ni;
A bydded ei feibion, a meibion eu meibion,
Yn llywiaw Tredegar am oesau diri'.

Duw'r nefoedd fendithio ei deulu gorenwog,
A myrdd o fendithion anwylaf y nen;
Fe fyddo 'u harweinydd, a'u llywydd galluog,
Fel na b'ont un amser dan gwmwl na llen.

I'n ELLIS, calonog, ein henwog beirianydd,
Boed iechyd a llwyddiant hyd derfyn ei daith:
Pe na byddai tafod i ddatgan ei glodydd,
Dangosai morthwylfa Tredegar ei waith.

Bydd hon yn gof-adail o'i gampus orchestion,
Tra carreg ar garreg heb syflyd o'i lle:—
Ond pe syrthiai 'r cwbl yn garn o adfeilion,
Gwnae hono lefaru, mai glewddyn oedd E.

Yn awr mi ddybenaf, rhag blino 'ch amynedd,
Er teimlo 'm llesg awen yn dechreu cael hwyl:
Pen-llywydd y bydoedd—cyfranwr pob rhinwedd,
Fendithio bob efnyn o wrthrych ein gwyl.

Tredegar. J. D. BRYCHAN.

CYWYDD AR ETHOLIAD

PRYSE PRYSE, Ysw., Gogerddan, yn Aelod Seneddol dros Fwrdeisdrefi Ceredigion.

Moes gerdd i Pryse Gogerddan,
F'awen gu, eilia fwyn gân
I'w fawl: rhagorawl mal gwr—
Sy yn addas Seneddwr;
Cymro o'n bro heb un brâd,
A gwron llawn o gariad.
Ei arwydd-air yw "rhyddid,"
A Gwlad glau'n tadau—Ein tid
A'n iau drom sydd ini 'n drist,
Ungerdd er amser Hengist,
Dryllia—O bob rhyw drallod
Dyga ni trwy ei deg nod;
Er maint trais y Sais i'w swydd,
E'r Cymro a ro i'r camrwydd.
Er cuwch bri'r Gwyr Coch eu brad,
Wyth hylon droi'r etholiad
I'r Glàs dewr, a pho'i glais du
Arnynt ar ol eu dyrnu.
Gan hyny, fechgyn anwyl,
Rho'wn ei glod mewn hynod hwyl:
Lliw y nef* dros ein Trefi
Rhoddwn oll—ein harwydd ni:
A lliw hardd y bardd fo'n ben†
Ar ein Sir tra un seren.
Lliw Glàs hardd y bardd fo'n ben,
Siriol ar bawb tra seren.
Pob rhyw lwydd yn rhwydd fo'n rhan—
Gu i gwrdd Pryse Gogerddan.

IOAN MYNYW, *Ceredigion.*

* Nef awyrawl—glas.
† Glas oedd lliw priodol y Beirdd gynt, yr hwn yn eu tyb hwy a arwyddai heddwch.

AT EIN GOHEBWYR.

Derbyniadau y Mis.—R. Roberts; O. Evans; J. Jones; Scrutator; J. James; Basanistes; J. Glan Teifi; W. Rowland; J. D. Brychan; Jacob Jones; T. Treharne; Ifor Gwalchmai ac Undodwr, Glan Teifi.

Gorfu arnom adael allan amryw ohebiaethau ac amrywiaethau &c. a anfonwyd attom y mis hwn o ddiffyg lle; rhoddir rhai y honynt yn y nesaf.

Teimlwn yn ddiolchgar am bob hysbysiadau perthynol i amcan yr *Ymofynydd;* ond deisyfwn gael ein harbed y drafferth o ad-ysgrifenu.

Y mae llaw-ysgrifen amherffaith neu esgeulus wedi bod cyn hyn yn rwystr i lawer cyfansoddiad da gael ymddangos.

Argyhoeddiad versus Dyfais Newydd.—Rhaid i ni adael allan lythyr a ysgrifenodd Mr. Jacob Jones attom "ar dymuniad Mr. Asa Evans, Cellan;" mewn rhan, o herwydd diffyg lle; ac mewn rhan, o herwydd ei fod yn cynnwys pethau anmherthynasol. Derbyniasem hysbysrwydd eisioes (Gwel tudal 120. Rhif. Mai) i'r un perwyl: sef, nad oedd "Dyfais Newydd." (tudal 49) a anfonodd J. Davies attom, ddim yn amgen na *hoax.* Nis gwyddom beth oedd ei amcan yn gwneud y fath gellwair; ond rhaid mai amcan ddigon gwael ydoedd. Gobeithiwn (gyda Mr. J. J.) ei fod yn awr yn teimlo yn edifeiriol.

Penybont: Argraffwyd gan Wm. Winstone, yn ei Argraff-dy Cyffredinol, Plwyf Casnewydd, Mehefin 1849.